newydd group | newydd

Grŵp Newydd Cyfyngedig
Cymdeithas Tai Newydd (1974) Cyfyngedig

Adroddiad Blynyddol a Datganiad Cyfrifon 2022

Eich Cartref
Eich Cymuned
Eich Dyfodol

Cynnwys

Gwybodaeth	3
Adroddiad Strategol	4-22
Adroddiad y Bwrdd	23-29
Grŵp Newydd Cyfyngedig	
Datganiadau Ariannol Cryno	30-31
Cymdeithas Tai Newydd (1974) Cyfyngedig	
Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol	32-36
Datganiad Incwm Cynhwysfawr	37
Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol	38
Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn	39
Datganiad Llifoedd Arian	40-41
Llif Arian Rhydd	42
Nodiadau sy'n ymwneud â'r Datganiadau Ariannol	43-69

Mae Adroddiad Blynyddol 2022 Newydd wedi cael ei wirio gan ein Panel Darllen a Pholisi Tenantiaid i sicrhau tryloywder a chasglu unrhyw adborth.

Gwybodaeth

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

Statws Cyfreithiol

Grŵp Newydd Cyfyngedig
Cymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol 2014 Rhif 21180R. Cofrestrwyd gyda Llywodraeth Cymru Rhif L025. Nid yw wedi mabwysiadu rheolau elusennol.

Cymdeithas Tai Newydd (1974) Cyfyngedig
Cymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol 2014 Rhif 28737R. Cofrestrwyd gyda Llywodraeth Cymru Rhif L121. Derbyniwyd gan Gyllid a Thollau EM fel elusen sydd wedi'i heithrio rhag Treth Gorfforaeth o dan gyfeirnod Rhif XR26039.

Aelodau'r bwrdd
Y rhai oedd yn aelodau o'r Bwrdd, ac a oedd i gyd hefyd yn aelodau cyfran, yn ystod y flwyddyn oedd:

Ms S Payter
Mr R Thomas
Ms C Marshall (Chair)
Mr C Dawson Morris
Ms R Jones
Mr M Dicks
Ms D Austin
Ms I Brooks-Jones
Mr K Ablett
Mr N Lawley
Mr N Irvine (penodwyd 08/09/21)
Mr M Brooks (penodwyd 08/09/21)

Prif Weithredwr
Jason Wroe

Ysgrifennydd Cwmni
Elizabeth Lendering,
Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau

Swyddfa Gofrestredig
5 Village Way
Caerdydd
CF15 7NE

Archwilydd
Bevan Buckland LLP
Llawr Daear, Cardigan House
Castle Court
Parc Anturiaeth Abertawe
Abertawe
SA7 9LA

Banc
Lloyds Bank
3rd Floor
25 Gresham Street
Llundain
EC2V 7HN



Adroddiad Strategol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

Adroddiad Strategol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

Mae'r Bwrdd yn cyflwyno ei Adroddiad Strategol ar faterion Grŵp Newydd Cyfyngedig a Chymdeithas Tai Newydd (1974) Cyfyngedig, ynghyd â'r datganiadau ariannol ac adroddiadau'r archwilydd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

Gweledigaeth ac amcanion

Yn Ionawr 2022, cymeradwyodd Bwrdd Cyffredin Newydd Gynllun Corfforaethol pum-mlynedd newydd sy'n ffocysu ar:

'Eich Cartref, Eich Cymuned, Eich Dyfodol'

Gweithiodd y Bwrdd gyda staff a thenantiaid er mwyn datblygu cynllun uchelgeisiol sydd â'r nod o sicrhau bod Newydd yn gymdeithas dai sydd ymysg y perfformwyr gorau, lle mae'r staff eisiau gweithio i helpu adeiladu cymunedau cynaliadwy a dyfodol gyda sicrwydd ariannol.

Themâu

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn gosod allan pum thema allweddol y mae'r Bwrdd yn dymuno eu hybu er mwyn cwrdd â'r nod uchod.

- **Gwasanaethau rhagorol**: Wrth graidd y cynllun mae ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol, i ymgysylltu'n effeithiol gyda'n tenantiaid ac i sicrhau bod ein sefydliad a'i wasanaethau'n adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau yr ydym yn gweithio ynddynt.
- **Twf**: Mae Grŵp Newydd eisiau cefnogi ein cymunedau i dyfu mewn amgylchedd cynaliadwy a diogel. Mae'r cynllun yn anelu i dyfu'r stoc tai er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng tai a chefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu 20,000 o gartrefi carbon-isel newydd erbyn diwedd tymor y llywodraeth bresennol.
- **Cefnogaeth**: Wrth i ni, gobeithio, gyrraedd diwedd y pandemig COVID-19, mae Newydd eisiau cefnogi tenantiaid a chymunedau i adfer o effeithiau'r pandemig i fyw unwaith eto mewn cymunedau ffyniannus â dyfodol disglair. Ond mae'r thema 'cefnogaeth' hefyd yn ceisio sicrhau bod adrannau o fewn y sefydliad yn medru darparu cefnogaeth effeithiol i'r aelodau staff hynny sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen i denantiaid.
- **Cynaliadwyedd**: Mae'r argyfwng hinsawdd yn parhau – mae Newydd eisiau gwneud ei rhan mewn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac yn anelu i gefnogi Llywodraeth Cymru drwy'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio er mwyn gostwng allyriadau carbon ledled ein stoc. Mae'r thema 'cynaliadwyedd' hefyd yn anelu i sicrhau bod tenantiaethau a chymunedau yn ddigon gwydn ar gyfer yr heriau maen nhw'n eu hwynebu.
- **Diogelwch**: Mae diogelwch tenantiaid yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel ar gyfer y Bwrdd. Mae Newydd yn anelu i sicrhau bod tenantiaid yn byw mewn tai diogel, fforddiadwy a safonol, ac yn derbyn gwasanaethau landlord rhagorol.

Gwerthoedd

Mae sut rydym yn cyflawni ein hamcanion yn bwysig i ni, ac yn sail i'n gweledigaeth mae set o werthoedd sy'n diffinio ein hymddygiad fel sefydliad a'n disgwyliadau ar gyfer y bobl sy'n gweithio gyda ni. Mae'r rhain yn set newydd o werthoedd a ddatblygwyd gyda staff er mwyn adlewyrchu'r sefydliad y dewison nhw weithio iddo.

Y gwerthoedd newydd yw:

- **Gonest**: Rydym yn onest, yn agored ac yn deg wrth ddelio â phobl ac â sefydliadau partner. Rydym yn parchu cyfrinachedd a'r angen i amddiffyn data sensitif. Rydym ni am i bobl fod yn ymwybodol o'r penderfyniadau rydyn ni'n eu cymryd, ac am iddynt eu deall, ac rydym yn atebol am ein gweithredoedd. Rydym yn cyflawni hyn trwy hysbysu ein rhanddeiliaid yn gyson, yn rheolaidd ac yn llawn.
- **Galluogi**: Mae ein gwasanaethau yn grymuso ein tenantiaid i fedru cynnal eu tenantiaethau, eu cymunedau, ac i ddatblygu a thyfu. Rydym yn anelu i alluogi ein staff i ddarparu'r gwasanaeth gorau y gallan nhw ac i dyfu a datblygu eu gyrfaoedd. Rydym yn anelu i alluogi ein rhanddeiliaid i ddarparu eu huchelgeisiau.
- **Arloesol:** Ein nod yw cyflawni rhagoriaeth ym mhopeth a wnawn. Rydym yn addasu ac yn ymateb yn gyflym, ac yn cymryd pob cyfle i ddysgu o brofiad. Rydym yn ymddiried yn ein staff ac yn annog syniadau newydd, gan alluogi staff i geisio gwella gwasanaethau.
- **Caredig**: Rydym yn sylwi pan mae pobl yn dioddef ac yn cymryd camau i helpu. Rydym eisiau helpu ein gilydd, tenantiaid a chymunedau. Rydym yn gwrando ar beth sydd gan bawb i'w ddweud. Rydym yn garedig.
- **Ffocws ar bobl**: Rydym yn cydnabod ac yn canmol perfformiad da. Rydym yn ymgysylltu â, gwrando ar ac yn dysgu wrth staff, tenantiaid a rhanddeiliaid. Rydym yn cofleidio amrywiaeth a chynhwysiant.

Canlyniadau ar gyfer y flwyddyn

Nodir canlyniadau Grŵp Newydd Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn yn y Datganiad Cyfunol Cryno o Incwm Cynhwysfawr ar dudalen 30, a nodir y sefyllfa ar 31 Mawrth 2022 yn y Datganiad Cyfunol Cryno o'r Sefyllfa Ariannol ar dudalen 31.

Nodir canlyniadau Cymdeithas Tai Newydd (1974) Cyf. yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr ar dudalen 37, a nodir y sefyllfa ar 31 Mawrth 2022 yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar dudalen 38.

Rydym yn adolygu ac yn monitro cyflawniad yn erbyn ein cynllun corfforaethol ac rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol yn erbyn nifer o'n targedau. Wrth ystyried y canlyniadau ar gyfer y flwyddyn, edrychodd y Bwrdd y tu hwnt i'r 31ain o Fawrth ac ystyriodd yr effaith mae Covid-19 wedi ei gael ar ein cartrefi, ein tenantiaid a'n rhaglen o ddatblygu cartrefi fforddiadwy newydd. Mae'r Bwrdd o'r farn fod y canlyniadau ar gyfer y flwyddyn yn foddhaol ac yn gwneud darpariaeth briodol ar gyfer effaith Covid-19, ac yn edrych ymlaen at berfformiad da yn ystod y deuddeng mis nesaf.

1	2	3
4	5	6

1. Gwobr QED
Rydym wedi derbyn y marc safon cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer landlordiaid cymdeithasol yn 2022, gwobr fawr ei bri a adnabyddir yn genedlaethol. Datblygwyd Gwobr QED gan yr elusen dai Gymreig Tai Pawb ac mae hi'n darparu fframwaith cynhwysfawr ar gyfer gwella effaith cydraddoldeb ac amrywiaeth sefydliadau.

2. Cwrt Canna
Fe agorom y drysau i 13 cartref ynni isel iawn er budd y gymuned wledig yn Llanganna. Mewn partneriaeth gyda Chyngor Bro Morgannwg, datblygwyd y cartrefi fforddiadwy hynod gynaliadwy hyn gyda chyllid preifat a chyllid o Raglen Tai Arloesol Llywodraeth Cymru a Grant Tai Cymdeithasol.

3. Lansio Working Wardrobe yn Rhydyfelin
Ym mis Mawrth 2022, lansiwyd gwasanaeth newydd sy'n cynnig dillad cyfweliad am ddim i bobl sy'n chwilio am waith, yn Rhydyfelin ger Pontypridd. Nod menter Working Wardrobe yw rhoi'r hyder i bobl gymryd eu cam cyntaf tuag at yrfa newydd drwy ddarparu dillad cyfweliad a dillad gwaith am ddim.

4. Prosiect Hapi yn cael ei lansio yng Nghaerdydd a'r Fro
Lansiwyd Hapi (Iach, Uchelgeisiol, Ffyniannus a Chynhwysol) – prosiect iechyd a llesiant sy'n rhoi adnoddau am ddim i gymunedau lleol a mynediad i weithdai er mwyn cael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl a llesiant – yng Nghaerdydd a'r Fro.

5. Banc Bwyd Llandrindod
Rydym wedi ymuno â phartneriaid i ddarparu 2000 kg o fwyd dros ben o safon i Fanc Bwyd Llandrindod oherwydd y cynnydd mewn heriau economaidd-gymdeithasol yn deillio o Covid-19. Mewn cydweithrediad â'r contractwr adeiladu J.G. Hale Construction, rydym wedi cwblhau datblygiad tai newydd yn Ffordd Ithon, Llandrindod, sy'n cynnwys 55 o dai fforddiadwy.

6. Agor Datblygiad St Paul's
Mewn partneriaeth gyda Gwasanaeth Gwirfoddol Morgannwg, adeiladwyd canolfan gymunedol amlbwrpas yn Eglwys St Paul's ym Mhenarth, ynghyd â 14 fflat un a dwy ystafell wely am rent fforddiadwy.

Datblygiadau/cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Wrth edrych ymlaen at weddill cyfnod ein cynllun corfforaethol, mae llawer i'w wneud o hyd i adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yn hyn. Ymhlith y tasgau allweddol mae:

- **Cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy:** Ar hyn o bryd, rydym mewn cytundeb ac ar y safle i ddarparu 300+ o dai newydd ychwanegol, ac mae gennym restr iach o brosiectau yn aros am arian. Rydym yn disgwyl cwblhau 100+ o gartrefi yn ystod 2022-23. Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau a ariennir trwy Grant Tai Cymdeithasol, partneriaethau adran 106 gyda datblygwyr preifat, a phrosiectau sy'n defnyddio cyllid Rhaglen Tai Arloesol gan Lywodraeth Cymru; bydd y cynlluniau hyn yn ymgorffori syniadau newydd ar gyfer gwresogi ac inswleiddio, dulliau adeiladu, neu ddefnydd cymysg. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu ac adeiladu cartrefi fforddiadwy, ond bydd cyfran lai o'n cartrefi ar gael trwy'r model perchentyaeth cost isel Home Buy, ac yn ddiweddar rydym wedi cwblhau ein heiddo cyntaf dan y cynllun Rhentu i Berchnogaeth ym Mhowys. Bydd tai fforddiadwy yn parhau i fod yn fusnes craidd i ni, ond rydym wedi ystyried ein hopsiynau ar gyfer rhentu a gwerthu ar bris y farchnad. Rydym yn datblygu rhai cynlluniau deiliadaeth gymysg gydag elfen o rent y farchnad mewn lleoliadau addas, ac rydym ar fin dechrau ar y safle ar ein prosiect cyntaf i werthu ar bris y farchnad.
- **Gweithio â phartneriaethau iechyd**: Ar hyn o bryd rydym ym mlwyddyn olaf ein prosiect HAPI, rhaglen a ariennir gan y Loteri Genedlaethol i hyrwyddo llesiant a ffyrdd iach o fyw yn Rhondda Cynon Taf. Deellir yn iawn y potensial sydd ar gyfer mwy o gydweithio rhwng partneriaethau iechyd a thai, ac rydym yn anelu at greu partneriaethau newydd i ganiatáu i'r gwasanaethau hyn barhau lle mae eu hangen fwyaf. Rydym wedi derbyn cyllid gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro am ail flwyddyn i ehangu'r rhaglen hon i'r ardaloedd hyn. Y nod strategol yw adeiladu perthnasau gweithio agosach gyda'r byrddau iechyd yn yr ardaloedd yr ydym yn gweithredu ynddynt er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y rhaglen; a chynnal gwerthuso academaidd er mwyn darparu tystiolaeth a sicrwydd i'r byrddau iechyd er mwyn ehangu'r berthynas. Rydym wedi sicrhau £25,000 gan Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg ar gyfer treialu'r prosiect GetFit.Wales, a fydd, gobeithio, yn dod yn olynydd i HAPI.
- **Adolygu ein Hadroddiad Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethur**: Yn 2021 fe wnaethom ni lansio ein Hadroddiad Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu cyntaf fel sefydliad oedd wedi mabwysiadu'r Safon Adrodd Cynaliadwyedd ar gyfer Tai Cymdeithasol yn gynnar, ac yn 2022 byddwn yn diweddaru hyn er mwyn adlewyrchu'r newid parhaus yn yr amgylchedd yr ydym yn byw ac yn gweithio ynddo.
- **Cynllun Corfforaethol**: Dros y 12 mis nesaf, mae Newydd yn bwriadu datblygu strategaethau a chynlluniau gweithredu o dan bob un o themâu'r Cynllun Corfforaethol a hefyd datblygu ymddygiadau er mwyn diffinio ein gwerthoedd.
- **Newydd Maintenance Ltd:** 2022 fydd pumed flwyddyn gweithredu ein his-gwmni atgyweirio a chynnal a chadw mewnol. Roedd y ddwy flynedd gyntaf yn heriol wrth i ni weithredu systemau a gweithdrefnau newydd a chroesawu staff newydd; ac yn y drydedd flwyddyn, fe gafodd y pandemig Covid-19 effaith fawr ar y gwasanaethau a ddarperir. Ym mlwyddyn 4, fe wnaeth NML ddychwelyd i amgylchedd gweithredu normal yn y diwedd, ond gyda phroblemau cyflenwi a chostau deunyddiau llawer uwch.

  Ar ôl cynyddu faint o waith cynnal a chadw adweithiol ac wedi'i gynllunio rydym ni'n ei gwblhau, rydym ni nawr yn gwneud holl waith cynnal a chadw Newydd wedi i ni ehangu ymhellach yn chwarter olaf y flwyddyn ariannol i wneud y gwaith cynnal a chadw arbenigol. Rydym yn cydweithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn y Timau Asedau a Datgarboneiddio, ac rydym wedi cytuno ar raglen gadarn o waith ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23 a bydd hyn yn cynnwys cwblhau'r holl waith datgarboneiddio a nodwyd drwy'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, gan gynnwys gosod paneli solar ffotofoltaig a Systemau Ynni Deallus.

- **Cyfranogiad tenantiaid**: Mae gan Newydd enw da iawn yn y sector tai am roi tenantiaid wrth galon popeth a wnawn. Unwaith eto eleni, fe wnaethom ni ennill y wobr gyntaf yng Ngwobrau TPAS Cymru 2021 am 'wneud ymgysylltu tenantiaid ar-lein yn llwyddiant' a'r ail wobr am 'gynnwys tenantiaid wrth lunio gwasanaethau'. Ac fe wnaeth Amanda Lawrence, aelod o'n Grŵp Craffu a'n Hyrwyddwr Anabledd, ennill – yn haeddiannol iawn – gwobr Tenant y Flwyddyn TPAS Cymru. Dyma rai o uchelbwyntiau eraill y flwyddyn:

  - Is-grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Newydd (NEADS) yn cyd-gynhyrchu siarter diogelwch yn gyntaf, siarter gwasanaeth cwsmeriaid, a chod ymddygiad contractwyr a dogfen addasiadau rhesymol
  - Ymgynghorwyd â'n Panel Darllen a Pholisi ar nifer o bolisïau a dogfennau drwy e-bost, ac adolygwyd hygyrchedd ein gwefan
  - Fe wnaeth ein Grŵp Craffu weithio gyda ni i ddarparu cynhadledd Facebook ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, ac fe wnaethon nhw hefyd gymryd rhan mewn trafodaethau ar werth am arian a rheoli risg. Fe wnaethon nhw hefyd ffilmio dau gyfweliad 'Straight Talking' gyda David Wilton, Prif Weithredwr TPAS Cymru, a Ross Thomas, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus Tai Pawb, ynghyd â'n Cyfarwyddwr Tai Oonagh Lyons, a'n Pennaeth Adfywio Cymunedol Rachel Honey Jones.
  - Wedi tri digwyddiad wyneb-yn-wyneb i ymgynghori ar ein cynllun corfforaethol newydd, rydym yn y broses o ddatblygu ein strategaeth dylanwadu newydd a chynnig ymgysylltu newydd ar gyfer ein tenantiaid.

- **Adolygiad annibynnol o'r cyflenwad tai fforddiadwy**: Ar 1 Mai 2019 cyhoeddodd y panel adolygu ei adroddiad a'i argymhellion. Cawn ein cynrychioli ar lefel uwch ac ar lefel Bwrdd ar amrywiol weithgorau sector i sicrhau y gallwn ddylanwadu ar ddatblygiad polisi, a chadw mewn cysylltiad â datblygiadau sector. Oherwydd y pandemig Covid-19 gohiriwyd rhai ymgynghoriadau a phenderfyniadau, ond rydym yn gwneud cynnydd eto nawr felly mae paratoi ein hunain ar gyfer unrhyw newidiadau yn allweddol.

Amcanion a pholisïau rheoli risg ariannol

Mae gweithgareddau'r Gymdeithas yn golygu ei bod yn agored i nifer o risgiau ariannol, gan gynnwys risg credyd, risg llif arian a risg hylifedd. Nid yw'n agored o gwbl i offerynnau ariannol deilliadol. Mae gosod cyfraddau llog sefydlog ar fenthyca i ariannu'r rhaglen ddatblygu yn sicrhau sicrwydd taliadau, a'r polisi yw cynnal cyfran o fenthyciadau cyfradd sefydlog/wedi'u sicrhau rhwng 60% ac 100%. Nid oes gan y Gymdeithas gysylltiad sylweddol ag ôl-ddyledion rhent sydd wedi'u gwasgaru dros nifer fawr o denantiaid ac a gyflwynir yn net o lwfans ar gyfer dyled ddrwg. Nid oes crynodiad o risg ar fenthyca ac adneuon sy'n cael eu gwasgaru dros nifer o fenthycwyr sydd â statws credyd uchel. Mae'r Gymdeithas yn defnyddio cymysgedd o gyllid dyled tymor hir a thymor byr i sicrhau bod digon o arian ar gael ar gyfer gweithrediadau parhaus.

Llywodraethu

Nod y Gymdeithas yw arddangos safonau llywodraethu uchel ac mae wedi mabwysiadu Cod Llywodraethu Tai Cymunedol Cymru. Mae cydymffurfiad yn cael ei adolygu'n rheolaidd, a gall y Byrddau gadarnhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn a byddant yn parhau i adolygu cynnydd i sicrhau bod cydymffurfiad yn parhau.

Roedd y Bwrdd yn falch iawn o dderbyn Gwobr QED gan Tai Pawb ar ddechrau 2022, gwobr oedd yn adlewyrchu'r gwaith a wnaed i sicrhau bod ein sefydliad a'i wasanaethau yn adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau rydym yn gweithio ynddynt. Mae'r Bwrdd hefyd wedi ymrwymo i gynyddu amrywiaeth eu haelodaeth ac yn ddiweddar wedi lansio ymarfer recriwtio i fynd i'r afael â hyn.

Rheoleiddio

Derbyniodd Grŵp Newydd ei asesiad rheoleiddiol diweddaraf yn Chwefror 2021 ac fe dderbyniodd y lefel uchaf am lywodraethiant ac am hyfywedd ariannol (safon/safon).

Ar adeg ysgrifennu hyn, mae Grŵp Newydd yn dechrau ei asesiad rheoleiddiol nesaf, a fydd yn cael ei gyhoeddi erbyn 30 Medi 2022.

1	2	2
3	4	5

1. Gwobr i Junction House
Mae'r prosiect adfywio trefol The Goodsheds a Junction House yn Y Barri wedi ennill gwobr adeiladu arbennig mewn cydnabyddiaeth o'i ddatblygiad adfywio. Roedd y prosiect cydweithredol yn ein cynnwys ni, Cyngor Bro Morgannwg, DS Properties Limited a Llywodraeth Cymru, ac fe drawsnewidiwyd hen storfa reilffordd i amrywiaeth o ofodau masnachol a llety.

2. Tafarn y Windsor
Mewn partneriaeth gyda Chyngor Bro Morgannwg a gyda chyllid o gynllun Tir ar gyfer Tai Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag angen lleol am dai, mae Tafarn y Windsor wedi cael ei drawsnewid i mewn i 12 fflat un ystafell wely a 6 fflat dwy ystafell wely i'w rhentu. O'r 18 fflat, mae dwy wedi cael eu haddasu ar gyfer tenantiaid ag anableddau, gan gynnwys ceginau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn a chyfleusterau ymolchi ystafell wlyb.

3. Llandrindod – Ffordd Ithon
Ym mis Awst 2021, symudodd tenantiaid i mewn i gartrefi fforddiadwy newydd sbon yn Ffordd Ithon, Llandrindod. I ddathlu'r cyfnod trosglwyddo cyntaf i denant, cyflwynodd y Cynghorydd Jake Berriman lyfrau stori i'w cynnwys ym mhob pecyn gosod, wedi'i ariannu gan fenter buddion cymunedol Newydd.

4. Casglu Sbwriel yn Rhydyfelin
Dros ddeuddydd ym Medi 2021, gweithiodd staff Newydd gyda thenantiaid, gwirfoddolwyr lleol a Cadwch Gymru'n Daclus i gasglu sbwriel a glanhau ein ystâd yn Rhydyfelin, gan gynnwys y maes chwarae ger Canolfan Llan a'r ardal o gwmpas y siopau lleol.

5. Noddi Gŵyl Siaredau Ratha Yatra
Fe wnaethom ni noddi Ratha Yatra (gŵyl siaredau) a drefnwyd gan Hindu Cohesion Mandal yn Y Barri, gan alluogi'r gymuned Hindŵaidd, gan gynnwys rhai o'n tenantiaid, i ddathlu'r ŵyl.

Sut ydyn ni'n perfformio?

Gosodwyd y dangosyddion perfformiad isod gan denantiaid Newydd.

Rhentu a gosod cartrefi

Mae darparu cefnogaeth i denantiaid sy'n ei chael hi'n anodd talu eu rhent yn flaenoriaeth uchel iawn i ni. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn yr argyfwng costau byw presennol, sy'n effeithio'n arw ar ein tenantiaid. Mae Newydd yn parhau i ddarparu cefnogaeth i'n preswylwyr drwy dîm o 3 Swyddog Cynhwysiant Ariannol sy'n rheoli cronfa galedi ac yn cynnig cefnogaeth i denantiaid sy'n hawlio budd-daliadau ac yn gwneud ceisiadau am grantiau. Mae ceisiadau am daliadau caledi wedi dyblu dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn ddiweddar, cyhoeddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau y bydd y rhaglen i symud yr holl hawlwyr sydd o oedran gweithio o fudd-daliadau etifeddol i gredyd cynhwysol yn awr yn ail-ddechrau, gyda'r nod o gwblhau'r broses yn 2024. Mae hyn yn debygol o fod yn broblematig mewn rhai achosion a bydd yn arwain at oedi mewn taliadau rhent yn y tymor byr. Datblygwyd dull o gasglu incwm sy'n canolbwyntio ar y person ac mae'r holl staff tai wedi derbyn hyfforddiant ar Ddulliau Adferol. Dyfeisiwyd polisi newydd ar gyfer rheoli cyfrifon sydd yn cymryd i ystyriaeth y newid yn yr amgylchedd yr ydym yn gweithredu ynddi, a pholisi Llywodraeth Cymru o ddim troi allan i ddigartrefedd. Mae'r polisi yn ymgorffori arferion gorau o adroddiad 2021 Shelter 'Accessing and sustaining social tenancies: exploring barriers to homeless prevention'. Ni fu unrhyw achos o droi allan dros y 2 flynedd ariannol ddiwethaf.

Rhentu a gosodiadau	2019/20	2020/21	**2021/22**
Canran y rhent a gasglwyd	99.35%	100%	**100%**
Canran yr ôl-ddyledion rhent sy'n ddyledus gan denantiaid cyfredol (gan gynnwys ôl-ddyledion budd-dal tai)	3.60%	4.40%	**4.73%**
Canran yr ôl-ddyledion rhent sy'n ddyledus gan denantiaid cyfredol (heb gyfrif ôl-ddyledion rhent budd-dal tai)	2.80%	3.61%	**3.97%**
Canran yr ôl-ddyledion rhent sy'n ddyledus gan gyn-denantiaid	1.90%	1.84%	**1.69%**
Swm ôl-ddyledion cyn-denantiaid wedi'u dileu	£52,896	£78,031	**£41,454**
Canran y rhent a gollwyd oherwydd bod cartrefi'n wag	1.85%	1.24%	**1.46%**

Rhentu a gosod cartrefi parhad

Rhentu a gosodiadau	2019/20	2020/21	**2021/22**
Nifer yr Hysbysiadau o Geisio Meddiant (NOSP) a gyflwynwyd oherwydd ôl-ddyledion rhent	275	151	**104**
Nifer y tenantiaid a gafodd eu troi allan oherwydd ôl-ddyledion rhent	8	0	**0**
Boddhad blynyddol â thaliadau gwasanaeth	74%	79%	**80%**

Cartrefi gwag a'r gwasanaeth gosod

Mae colled rhent wedi gostwng dros y flwyddyn ddiwethaf ac mae nifer o'n heiddo sy'n anodd eu gosod wedi cael eu dyrannu. Mae ail-osod eiddo gwag yn parhau i fod yn ardal o flaenoriaeth i ni ac rydym wedi gwneud cynnydd yn y maes hwn. Mae modiwl eiddo gwag newydd wedi cael ei gyflwyno yn Orchard, ein system rheoli tai, a bydd hyn yn caniatáu i ni dracio a monitro patrymau eiddo gwag yn fwy effeithiol. Mae'r gwaith wedi dechrau ar strategaeth cynaliadwyedd tenantiaeth a bydd hyn yn ffocysu ar, ymysg pethau eraill, gwneud gwell defnydd o'n data er mwyn cynllunio ein gwasanaethau a thargedu ein hymyriadau i gael yr effaith fwyaf posib, yn ogystal ag adeiladu perthynas well gyda'n tenantiaid.

Eiddo gwag a gosodiadau	2019/20	2020/21	**2021/22**
Canran y tenantiaethau newydd sy'n para mwy na 12 mis	95%	95%	**95%**
Canran eiddo a osodir o fewn 10 dydd gwaith	2.15%	7%	**5.34%**
Rhent a gollwyd oherwydd eiddo gwag	£284,002	£199,456	**£235,215**

Gwasanaeth cwsmeriaid

Mae'r ffordd yr ydym yn darparu gwasanaeth i gwsmeriaid yn esblygu'n gyson. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn edrych ar ddatrysiadau omnisianel er mwyn gwella'r gwasanaeth i gwsmeriaid. Mae rhyngweithiadau digidol wedi codi'n gyson mewn blynyddoedd diweddar, ac erbyn hyn rydym yn taro'n targed o 70:30 yn rheolaidd. Mae ein platfform hunanwasanaeth Fy Newydd yn parhau i ddenu defnyddwyr ac fe gafwyd dros 34,000 o gysylltiadau drwy'r dull hwn yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Rydym ar fin datblygu strategaeth newydd gyda staff a thenantiaid er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau rhagorol, sydd yn thema allweddol yn ein cynllun corfforaethol newydd.

Gwasanaeth cwsmeriaid	2019/20	2020/21	**2021/22**
Nifer o alwadau	34,206	22,600	**27,719**
Cysylltiadau Fy Newydd	21,975	29,563	**34,483**
Cymhareb cysylltiadau digidol: ffôn	65:35	69:31	**70:30**
Atebion i Sgwrs Fyw (Chat)	793	850	**707**
Boddhad yr ymatebwyr	3.65/4	3.9 /5	**4/5**
Postiadau Facebook a ymatebwyd iddynt	Not recorded	Not recorded	**196**
Nifer achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol agored	17	47	**49**
Nifer achosion troi allan oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol	0	0	**0**
Cost ymddygiad gwrthgymdeithasol (ffioedd cyfreithiol yn unig)	£27,234	£11,876	**£5,881**

Gwasanaeth cynnal a chadw

Dyma'r bedwaredd flwyddyn lawn i waith cynnal a chadw ymatebol gael ei wneud gan ein tîm mewnol ein hunain. Mae'r profiad dysgu wedi bod yn amhrisiadwy ac er na fu'r broses heb ei phroblemau, mae'r gwelliant mewn ansawdd a gwerth am arian yn dechrau amlygu ei hun. Roedd cael ein tîm ein hunain yn amhrisiadwy wrth ymateb i'r llifogydd blaenorol, ac mae gwasanaethau sy'n esblygu wedi amddiffyn staff a thenantiaid mewn ymateb i Covid-19. Mae gwella boddhad tenantiaid yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r gwasanaeth cynnal a chadw.

Cynnal a chadw	2019/20	2020/21	**2021/22**
Atgyweiriadau ymatebol a adroddwyd (pob categori)	9308	8733	**12005**
Atgyweiriadau ymatebol a gwblhawyd (pob categori)	9091	9122	**11832**
Eiddo gwag byw	30	16	**13**
Canran atgyweiriadau a gwblhawyd y tro cyntaf	96%	97%	**98%**
Canran atgyweiriadau brys a gwblhawyd ar amser	99%	99%	**99%**
Canran atgyweiriadau brys allan o'r holl atgyweiriadau ymatebol	18%	30%	**21%**
Apwyntiadau a wnaed ac a gadwyd fel % o holl atgyweiriadau ymatebol lle nad oedd brys	93%	95%	**98%**
Diwrnodau calendr i gwblhau atgyweiriadau ymatebol ar gyfartaledd	38	36	**24**

Gwasanaeth cynnal a chadw parhad

Cynnal a chadw	2019/20	2020/21	**2021/22**
Diwrnodau calendr i ail-osod eiddo gwag ar gyfartaledd	50	48	**22**
Boddhad gydag atgyweiriadau (trafodiadol)	90%	96%	**95%**
Trosiant staff (gwirfoddol)	3.0%	1.4%	**2.0%**
Tasgau a gwblhawyd fesul gweithiwr bob dydd	4	3.7	**3.8**
Gwasanaethau Nwy Wedi Darfod	6	5	**0**

Datblygu

Mae'r tîm datblygu wedi cwblhau 96 o gartrefi newydd: 41 ym Mro Morgannwg a 55 ym Mhowys. Y ddeiliadaeth bennaf oedd cartrefi ar gyfer rhent cymdeithasol, gyda nifer fach ar gyfer rhentu i berchnogi. Mae nifer yr eiddo a adeiladwyd, a ble, fel a ganlyn:

Bro Morgannwg

- Ffordd Porthkerry, Y Barri – 8 cartref am rent cymdeithasol
- Eastfield Close, Cae Ffynnon, Dunraven Close a Chae Wyndham yn Y Bont-faen – 12 cartref am rent cymdeithasol
- Heol Penygraig a Ffordd Pentre, Glannau'r Barri – 11 cartref am rent cymdeithasol
- Cwrt Canna, Llan-gan – 10 cartref am rent cymdeithasol

Powys

- Ffordd Ithon, Llandrindod – 55 cartref (38 am rent cymdeithasol a 17 rhentu i berchnogi)

	2019/20	2020/21	**2021/22**
Nifer o denantiaid sy'n fodlon wedi 12 mis yn byw mewn cartref newydd	100%	100%	**96%**
Nifer o addasiadau ffisegol	33	34	**57**
Nifer o denantiaid sy'n fodlon gyda'r addasiadau	100%	100%	**100%**

Gwerth am arian

Mae'r Gymdeithas yn cydnabod bod gwerth am arian yn deillio o weithgareddau gweithwyr, tenantiaid a rhanddeiliaid. Mae cydberchnogaeth gwerthoedd corfforaethol yn dod â dull cyson o ddarparu gwerth am arian ledled y sefydliad.

Mae'r hyn mae tenantiaid yn rhoi gwerth arno yn rhan bwysig o fesur perfformiad gwasanaeth. Mae'r dangosyddion tenantiaid yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd gyda'n tenantiaid i sicrhau ein bod yn parhau i fesur yr hyn sy'n cael ei werthfawrogi fwyaf.

Fforddiadwyedd rhent
Mae'n hynod bwysig fod ein rhenti yn fforddiadwy i'n holl denantiaid. Rydym hefyd eisiau sicrhau bod rhenti'n deg ac yn unol â'r hyn mae tenantiaid yn ei ddisgwyl. Dywedodd ein tenantiaid wrthym y dylai fflatiau fod yn rhatach na thai, y dylai eiddo hŷn gostio llai nag eiddo newydd, ac y dylid ystyried incwm yr aelwyd a maint yr eiddo wrth osod rhent. Nid oes mesur cyffredinol o fforddiadwyedd ac rydym wedi ceisio dod o hyd i ddull sy'n syml i'w gymhwyso a'i ddeall. Am sawl blwyddyn, rydym wedi defnyddio'r modelau Rhent Byw i gynorthwyo wrth bennu fforddiadwyedd ein rhent a'n taliadau gwasanaeth. Yn ffodus, mae'r model yn cynhyrchu meincnod sy'n unol â disgwyliadau tenantiaid o ran tegwch a fforddiadwyedd. Dangosodd ein harolwg boddhad tenantiaid diweddaraf fod 90% o denantiaid yn fodlon â'r rhent o ran gwerth am arian, ac roedd 79% yn fodlon fod taliadau gwasanaeth yn rhoi gwerth am arian.

Mae'r Gymdeithas wedi gosod yr her o wella a darparu gwasanaethau craidd yn gyfnewid am Rent Byw. Rydym yn cynnwys taliadau gwasanaeth yn ogystal â thâl rhent wrth asesu fforddiadwyedd cyffredinol.

Adolygir rhenti a thaliadau gwasanaeth am fforddiadwyedd ym mhob lleoliad. Rhoddir crynodeb o renti a thaliadau gwasanaeth ar gyfartaledd o gymharu â Rhent Byw amcangyfrifedig a rhent marchnad.

Ein rhent a thâl gwasanaeth ar gyfartaledd (anghenion cyffredinol) 2021/22

1 LLOFFT	2 LLOFFT	3 LLOFFT	4 LLOFFT
£96.11	£108.94	£116.82	£137.09

Rhent Byw ar gyfartaledd
(Rhent Byw a ddatblygwyd gan y Joseph Rowntree Foundation a Savills yn seiliedig ar enillion chwartel isaf yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE))

1 LLOFFT	2 LLOFFT	3 LLOFFT	4 LLOFFT
£104.43	£131.00	£156.76	£175.73

Rhent Sector Preifat Canolrif Chwartel 2019
a gynhyrchwyd gan Swyddogion Rhenti Cymru. Cyhoeddiad diweddaraf Mai 2020.

1 LLOFFT	2 LLOFFT	3 LLOFFT	4 LLOFFT
£96.47	£117.78	£139.70	£202.79

Mae eiddo un ystafell wely mewn blociau o fflatiau, rhai ohonynt yn denu taliadau gwasanaeth uchel, ac mae hwn yn faes sy'n peri pryder i'r Gymdeithas. Mae'r Gymdeithas yn gweithio i leihau a dileu costau gwasanaeth mewn datblygiadau newydd, a datblygu gwerth am arian ar wasanaethau sy'n bodoli'n barod. Pan ofynnwyd iddynt, dywedodd y mwyafrif llethol o denantiaid eu bod yn rhoi gwerth ar safon dros gost.

Perfformiad asedau

Asesir perfformiad asedau unigol gan ddefnyddio data sy'n bodoli eisoes ac sy'n seiliedig ar ystod o wybodaeth ansoddol a meintiol gan gynnwys cynaliadwyedd tenantiaeth, galw, cyflwr stoc, atgyweiriadau, gwagleoedd, graddio cymdogaeth, boddhad cwsmeriaid, ymddygiad gwrthgymdeithasol, cwynion, cost rheoli a pherfformiad ariannol. Mae'r data sy'n deillio o hyn yn cael ei werthuso yn erbyn prawf effeithlonrwydd a'i ddosbarthu'n lefelau perfformiad sy'n darparu meincnod mewnol i asesu gwella perfformiad dros y 3 blynedd nesaf.

Strategaeth Gwella Perfformiad Asedau dros 6 blynedd

Cynhelir adolygiad perfformiad bob tair blynedd i nodi'r stoc sy'n perfformio waethaf ac i benderfynu sut i wella perfformiad yn gyffredinol. Mae hyn yn sefydlu'r strategaeth am y 3 blynedd nesaf. Darparodd yr adolygiad diwethaf dystiolaeth fod y strategaeth yn dechrau dwyn ffrwyth gan fod canran y stoc sy'n perfformio (Dosbarth A & B) o'i gymharu â stoc perfformio'n waeth (Dosbarth C) wedi gwella.

Caiff stoc sy'n perfformio'n wael y tu allan i'n meysydd gweithredu strategol (fel arfer stoc annibynnol, wasgaredig) naill ai ei werthu er mwyn ariannu gwelliant ar ein hystadau, neu yn achos blociau neu ystadau llai, ei ail-fodelu i wella perfformiad, golwg ac amodau byw ar gyfer y bobl sy'n byw ynddynt.



Enillion ar gyfanswm yr asedau

Mae gan y Gymdeithas dros draean o'i stoc mewn ardaloedd lle mae rhenti yn is na chyfartaledd Cymru. Yn ogystal â hyn, mae ein stoc yn cynnwys 30% o eiddo un ystafell wely yr ydym yn ceisio eu cynnal ar lefelau rhent fforddiadwy. Felly, mae sicrhau enillion iach ar fuddsoddiad, wrth barhau i gyrraedd Safon Tai Ansawdd Cymru a gwasanaethu cyllid ychwanegol i ddatblygu cartrefi newydd, yn heriol.

Y Strategaeth Gwella Perfformiad Asedau yw sicrhau bod buddsoddiad mewn stoc bresennol yn darparu'r enillion sydd eu hangen arnom i barhau i fuddsoddi mewn datblygu cartrefi newydd.

Dangosyddion gwerth am arian – enillion ar asedau

Gwarged gweithredol ar gyfanswm yr asedau



Perfformiad gwasanaeth

Mae'r tair prif gost sydd ynglŷn â thai, sef cynnal a chadw, staffio a'r trysorlys, wedi cael adolygiadau allanol sydd wedi rhoi sicrwydd ein bod yn perfformio yn unol â'n cyfoedion. Mae costau cyflog yn cael eu gosod ar ganolrif y farchnad, sy'n cael ei adolygu bob tair blynedd.

Dangosyddion Gwerth am Arian Wales Global Accounts

Manylir isod ar adolygiad manylach o'r dangosyddion Gwerth am Arian dangosol a gyhoeddwyd yng Nghyfrifon Cyffredinol Cymru Gyfan. Mae datblygu cyfres o ddangosyddion ar gyfer y sector yn waith sydd ar y gweill, ac mae wedi'i nodi isod i roi rhyw syniad o'n perfformiad o'i gymharu â'r sector.

	Dangosydd Gwerth am Arian – cyfartaleddau blynyddol y sector	2021	2022	Cymru gyfan 2021
	Trosiant gosodiadau fesul uned tai cymdeithasol	£5,543	£5,740	£5,737
	Cyfanswm cost gweithredu fesul uned tai cymdeithasol	£2,780	£2,781	£3,418
	Cost rheoli fesul uned tai cymdeithasol	£887	£930	£1,308
	Costau adweithiol fesul uned tai cymdeithasol	£887	£884	£1,138
	Atgyweiriadau mawr a chydran fesul uned tai cymdeithasol (Cyfalaf)	£654	£700	£681
	Atgyweiriadau mawr a chydran fesul uned tai cymdeithasol (Cyfalaf a Refeniw)	£716	£794	£961
	Costau dyled ddrwg fesul uned tai cymdeithasol	£53	£2	£28
	Cost gyfartalog cyfalaf wedi'i bwysoli	3.92%	3.88%	4.7%
	Mewnlif arian parod (all-lif) fesul cymdeithas dai	£987	£892	£787
	Ôl-ddyledion gros/trosiant tai cymdeithasol	8.0%	7.6%	4.9%
	Colled rhent ar wagle fesul uned tai cymdeithasol	£110	£62	£96

Cyfranogiad tenantiaid

Mae Cymdeithas Tai Newydd yn defnyddio'r offeryn effaith gymdeithasol HACT i fesur canlyniadau a gwerth am arian ar gyfer cynnwys tenantiaid a gweithgareddau adfywio cymunedol ehangach. Fe'i defnyddir i ddeall, mesur a mapio effaith gymdeithasol gweithgareddau buddsoddi cymunedol a'r effaith gymdeithasol ar yr economi leol.

Cyfrifir y gwerthoedd trwy ddadansoddiadau ystadegol o bedair set ddata genedlaethol fawr yn y DU sy'n cynnwys data ar lesiant ac amgylchiadau bywyd: British Household Panel Survey (BHPS), Understanding Society, Arolwg Trosedd Cymru a Lloegr, a'r arolwg The Taking Part. Mae'r setiau data hyn yn cynnwys ymatebion pobl i gwestiynau llesiant cyn ac ar ôl gweithgaredd buddsoddi cymunedol. Yn dibynnu ar y gweithgaredd, mae'r cwestiynau'n canolbwyntio ar nifer fawr o agweddau ac amgylchiadau eu bywydau megis statws cyflogaeth, statws priodasol, statws iechyd, p'un a ydyn nhw'n gwirfoddoli, p'un a ydyn nhw'n chwarae chwaraeon, p'un a ydyn nhw'n byw mewn ardal ddiogel, ac ati, gan arwain at ystod eang o werthoedd. Daw mwyafrif y gwerthoedd o'r BHPS sydd wedi'i gwblhau bob blwyddyn gan fwy na 10,000 o'r un unigolion ers 1991, ac felly mae'n ymgorffori dros 20 mlynedd o ddata panel.

Gan ddefnyddio'r gwerthoedd hyn, gellir asesu pob gweithgaredd yn ôl ei ganlyniadau a chyfrifo faint o 'enillion cymdeithasol' mae'n ei roi.

Gwerth ychwanegol

Ein polisi yw cynnwys cymalau cymdeithasol ym mhob cytundeb dros **£50,000**, yn ein cytundebau datblygu tendr, ein cytundebau cynnal a chadw cynlluniedig, a'n hadran cynnal a chadw yn fewnol. Ymhlith y buddion i gymunedau yr ydym yn gweithredu ynddynt mae prentisiaethau, hyfforddiant, profiad gwaith, lleoliadau gwaith, ac adfywio ffisegol o ystadau a chymunedau, ac ariannu prosiectau cymunedol a/neu elusennau.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi derbyn cyfanswm o **£27,000** mewn taliadau swm buddsoddiad cymunedol, swm sydd wedi'i wario neu sydd i gael ei wario ar brosiectau cymunedol lleol.

Cyflawnodd ein contractwyr allanol a'n tîm mewnol **£10,586** o gyfraniadau neu noddiadau arian parod yn lleol, **£895** o lafur, a **£1,000** o roddion deunyddiau i brosiectau cymunedol.

Ymhellach, darparwyd **452** o wythnosau prentisiaeth, a **215** wythnos o brofiad gwaith, dros y flwyddyn ariannol.

Cynhelir gweithgareddau cymunedol wyneb-yn-wyneb fel arfer; oherwydd COVID-19, symudwyd i gynnal gweithgareddau ar-lein, gan ostwng cost buddsoddi cymunedol. Gwnaeth yr arbedion hyn hi'n bosib i wario mwy ar gefnogaeth llesiant i denantiaid oedd ei angen yn ddirfawr o ganlyniad i'r cyfnodau clo. Erbyn hyn rydym wedi symud i gymysgedd o ddarpariaeth wyneb-yn-wyneb ac ar-lein.

	2020	2021	2022
Cyllideb ar gyfer gweithgaredd buddsoddi cymunedol	£215,684	£93,447	£176,541
Strwythur y gweithgaredd	5 rhaglen a chyfanswm o 31 o brosiectau	6 rhaglen a chyfanswm o 14 o brosiectau	5 rhaglen a chyfanswm o 17 o brosiectau
Nifer y bobl sy'n profi canlyniad	2,633	1,921	3,021
Effaith gymdeithasol	£9,740,870 Yn seiliedig ar 3144 canlyniad, 6 didystiolaeth	£4,636,461 Yn seiliedig ar 2001 canlyniad, 1 didystiolaeth	£11,242,029 Yn seiliedig ar 3167 canlyniad, 0 didystiolaeth
Cymhareb cyllideb i effaith	£1: £45.20	£1: £49.60	£1: £64.70
Buddion net (budd llai cyllideb)	£9,525,186	£4,543,014	£11,242,029
Buddion cymunedol	414 o wythnosau prentisiaeth, 216 wythnos o brofiad gwaith	132 wythnos o hyfforddiant heb eu hachredu, 168 o wythnosau prentisiaeth, 246 wythnos o brofiad gwaith	36 o bobl di-waith wedi cael gwaith, 19 cyfle prentisiaeth, 147 wythnos hyfforddiant heb eu hachredu wedi'u cwblhau, 452 wythnos prentisiaeth, 215 wythnos o brofiad gwaith
Cyfanswm oriau cyfranogi tenantiaid	952.25	139.25	277.5

Arwyddwyd: C Marshall, Cadeirydd
Dyddiad: 20th Gorffennaf 2022

Adroddiad y Bwrdd

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

Adroddiad y Bwrdd

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

Datganiad o Gyfrifoldebau Aelodau'r Bwrdd

Rheolaeth fewnol a rheoli risg

Mae'r Bwrdd yn cydnabod cyfrifoldeb yn y pen draw am sicrhau bod system ar gael o reolaethau sy'n briodol i'r amrywiol amgylcheddau busnes y mae'n gweithredu ynddynt. Mae gan y Bwrdd fframwaith ffurfiol ar gyfer:

a) nodi, adolygu a rheoli risg
b) diogelu iechyd a diogelwch tenantiaid a staff
c) dibynadwyedd y wybodaeth ariannol a ddefnyddir o fewn y Gymdeithasn
d) cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir; a
e) diogelu asedau rhag cael eu defnyddio neu eu gwaredu heb awdurdod.

Elfennau allweddol y system o reolaethau mewnol

Mae'r fframwaith rheolaeth fewnol wedi'i gynllunio i reoli a lleihau'r risg o fethu â chyflawni amcanion busnes. Dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid absoliwt, y gall ei roi i'r Bwrdd yn erbyn camddatganiad neu golled sylweddol.

Mae nodweddion allweddol system rheolaeth fewnol y Grŵp yn cynnwys:

- cael polisïau a gweithdrefnau ffurfiol ar waith, gan gynnwys dogfennu systemau a rheolau allweddol sy'n ymwneud â dirprwyo awdurdod, sy'n caniatáu monitro rheolaethau ac yn cyfyngu ar ddefnydd anawdurdodedig o asedau'r Grŵp.
- cael polisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n ymdrin ag atal, canfod ac adrodd ar dwyll, gan gynnwys seiber-dwyll ac adfer asedau. Ni fu unrhyw golledion oherwydd twyll yn ystod y flwyddyn. Ymchwiliwyd i un seiberymosodiad yn ystod y flwyddyn. Rhoddwyd gwybod i'r Comisiynydd Gwybodaeth am yr ymosodiad gwe-rwydo posib, ond wnaeth hyn ddim arwain at unrhyw gamau gorfodi oherwydd ffeithiau'r mater a'r camau unioni a gymerwyd.
- bod staff profiadol sydd â chymwysterau addas yn cymryd cyfrifoldeb am swyddogaethau busnes pwysig.
- paratoi rhagolygon a chyllidebau sy'n caniatáu i'r Gymdeithas a'r rheolwyr fonitro'r risgiau busnes a'r amcanion ariannol allweddol, a symud ymlaen tuag at gynlluniau ariannol a osodwyd ar gyfer y flwyddyn a'r tymor canolig; paratoi cyfrifon rheoli yn gyson a phrydlon, gan ddarparu gwybodaeth berthnasol, ddibynadwy a chyfoes ac ymchwilio i amrywiannau sylweddol o gyllidebau fel y bo'n briodol.
- bod pob menter newydd sylweddol, ymrwymiadau mawr a phrosiect buddsoddi yn ddarostyngedig i weithdrefnau awdurdodi ffurfiol, trwy bwyllgorau perthnasol sy'n cynnwys aelodau'r Bwrdd ac eraill.

Risg

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i reoli risg er mwyn cyflawni gweledigaeth a nodau'r Grŵp, ac i barhau i fod yn fusnes hyfyw a chynaliadwy.

Mae Llywodraeth Cymru, fel rheolydd y sector cymdeithasau tai, wedi cynyddu ei ffocws ar reoli risg, ac yn disgwyl i gymdeithasau tai ac yn enwedig eu Byrddau ddeall yn llawn yr amgylchedd risg busnes a risg ariannol y maent yn gweithredu ynddo, ac i fod yn hyderus fod y risgiau hyn yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Yn gyffredinol, mae'r Grŵp yn gweithredu mewn sector risg isel, gyda'r rhan fwyaf o'r digwyddiadau a allai effeithio'n andwyol ar y busnes yn cymryd cryn amser i gael effaith. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd diwethaf, mae digwyddiadau megis seiberddiogelwch, y pandemig a'r argyfwng costau byw wedi gwneud yr amgylchedd gweithredu'n llai sicr.

Adolygir y Gofrestr Risg bob chwarter gan:

Meddalwedd Risg Decision Time
Mae gan yr holl Bennaethiaid Gwasanaeth, y Tîm Rheoli Uwch ac aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Risg Grŵp fynediad uniongyrchol i gofrestr risg Decision Time

Pwyllgor Archwilio a Risg Grŵp
Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg Grŵp yn cwrdd bob chwarter ac yn herio'r risgiau strategol, y prif risgiau gweithredol a materion sy'n dod i'r amlwg. Mae hefyd yn ystyried y lefelau presennol o sicrwydd ac yn nodi tair risg weithredol ar gyfer yr Archwilydd Mewnol i'w hasesu bob chwarter

Bwrdd Cyffredin y Grŵp
Mae Bwrdd Cyffredin y Grŵp yn trafod ac yn herio risgiau strategol, lefelau sicrwydd a materion sy'n dod i'r amlwg. Mae'r Bwrdd hefyd yn trafod parodrwydd i dderbyn risg

Risg parhad

Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau chwarterol ar:

- Materion sy'n dod i'r amlwg ond nad ydynt eto wedi ymddangos yn y gofrestr risg weithredol
- Risgiau strategol a risg gweddilliol cysylltiedig

Bydd yr Archwilwyr Mewnol yn cynnal asesiad o un neu ragor o'r risgiau strategol yn chwarterol, ac yn cyflwyno canfyddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Risg Grŵp i'w hadolygu.

Mae'r Gofrestr Materion sy'n Dod i'r Amlwg a'r Gofrestr Risg weithredol lawn ar gael i'r Pwyllgor Archwilio a Risg Grŵp bob amser, gan alluogi dealltwriaeth ar unrhyw adeg o'r risgiau mae'r Grŵp yn eu hwynebu.

Nodir manylion llawn dull y Grŵp o ymdrin â risg yn y Fframwaith Rheoli Risg a adolygir yn flynyddol.

Yn ystod 2022, yn dilyn proses dendro, newidiodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol. Mae'r Grŵp nawr yn gweithio gyda Astari

Y prif faterion sy'n dod i'r amlwg ac sy'n wynebu'r Grŵp

Materion sy'n dod i'r amlwg
Datgarboneiddio – Gallai costau uchel posib er mwyn cyrraedd sero-net gael effaith andwyol ar lefelau gwasanaeth Newydd, gan gael effaith negyddol ar enw da Newydd.
Datblygu polisi – Ansicrwydd yn y sector o ran datblygiadau polisi dros y 6-18 mis nesaf oherwydd y pandemig.
Cynnydd cost deunyddiau – Gallai codiadau mewn costau neu oedi yn y cyflenwad deunyddiau adeiladu gael effaith andwyol ar hyfywedd datblygiadau ac oedi mewn cwblhau prosiectau, gan effeithio ar incwm rhent.
Yswiriant corfforaethol – Mae'r farchnad yswiriant yn tynhau, mae nifer lai o yswirwyr a does gan y farchnad bresennol ddim archwaeth am fusnes newydd. Ni fydd polisïau yswiriant bellach yn talu costau llifogydd.
Setliad rhent blynyddol – Gallai codiad tebygol mewn chwyddiant yn ystod 2022 gael effaith andwyol ar y setliad rhent ar gyfer 2023-24 a thu hwnt, gan effeithio'n andwyol ar incwm rhent Newydd.
Defnydd o Hysbysiadau Adran 21 – Gyda chytundebau meddiannaeth safonol ragarweiniol yn disodli tenantiaethau cychwynnol o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru), efallai mai cyfyngedig iawn fydd ein gallu i gymryd camau i ddiweddu tenantiaethau aflwyddiannus yn gyflym yn y flwyddyn gyntaf.
Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) – Mae'r ddeddfwriaeth yn berthnasol i Gymru'n unig felly mater i sefydliadau Cymreig fydd amddiffyn unrhyw heriau i'r Ddeddf newydd, a allai fod yn gostus iawn.
Unnos (Tir a Thai Cymru) – Gallai ffurfio cwmni adeiladu cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru fod yn risg neu'n gyfle. Bydd manylion pellach yn ystod 2022 yn darparu mwy o eglurder.
Dulliau Adferol – Gallai gweithredu Dulliau Adferol ledled y sefydliad arwain, yn y lle cyntaf, at ostyngiad mewn perfformiad, a allai achosi pryder i'r Tîm Rheoli a'r Bwrdd.

Y prif faterion sy'n dod i'r amlwg ac sy'n wynebu'r Grŵp parhad

Materion sy'n dod i'r amlwg
Papur Gwyn Diogelwch Adeiladau – Gallai Papur Gwyn Diogelwch Adeiladau Llywodraeth Cymru arwain at effeithiau beichus a/neu gostus ar y Grŵp, gan gynyddu'r galw am systemau diogelwch wedi'u ôl-osod.
Datblyg – Mae newidiadau parthu yn arwain at fwy o gystadleuaeth am gyllid grant yn Y Fro, RhCT a Phowys oherwydd newidiadau i barthau rhanbarthol.
Grant Addasiadau Ffisegol (GAF) – Gallai'r newidiadau arfaethedig i'r lefelau o gyllid GAF i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r dulliau a ddefnyddir i reoli'r broses GAF arwain at ostyngiad yn y nifer o GAF.
Costau tanwydd a phrinder cyflenwad – Gallai hyn gael effaith andwyol ar wasanaethau Newydd, yn enwedig y gwasanaeth cynnal a chadw.
Archwilio Mewnol – Gallai'r newid mewn Archwiliwr Mewnol yn 2022 a dull gwahanol yn dilyn o hynny arwain at sensitifrwydd uwch i risg.
Safon Ansawdd Tai Cymru 2 – Mae costau gweithredu SATC2 yn cael effaith andwyol ar weddill y sefydliad.

Risgiau Strategol sy'n wynebu'r Grŵp

Risg Strategol	Lefel rRisg cynhenid	Nifer o reolaethau	Lefel risg gweddilliol
Grŵp Newydd yn mynd yn fethdalwr	Uchel	9	Isel
Methu â chyflawni'r Cynllun Corfforaethol	Cymedrol	9	Cymedrol
Digwyddiad parhad busnes difrifol	Uchel	5	Isel
Ymyrraeth reoleiddiol	Cymedrol	7	Isel
Tramgwydd cyfreithiol (gan gynnwys lechyd & Diogelwch, diogelu data, diogelu)	Cymedrol	7	Isel
Lleiafrifoedd dan anfantais oherwydd anghydraddoldebau yng ngwasanaethau Newydd	Cymedrol	3	Low
Methiant llywodraethiant yn atal y sefydliad rhag gweithredu'n effeithiol	Cymedrol	6	Low
Gwasanaethau yn cael eu heffeithio gan y pandemig	Uchel	5	Cymedrol

Iechyd a diogelwch

Polisi'r Gymdeithas yw atal damweiniau ac achosion o afiechyd sy'n gysylltiedig â gwaith drwy reoli'r risgiau iechyd a diogelwch yn y gweithle.

Cynhelir adolygiad iechyd a diogelwch blynyddol sy'n ymdrin â'r canlynol:

- data ar berfformiad iechyd a diogelwch y Gymdeithas
- risgiau sylweddol a strategaethau i fynd i'r afael â nhw
- amcanion iechyd a diogelwch fel y'u nodir yn y cynllun gweithredu a symud ymlaen tuag at gyflawni'r nodau
- trefniadau ar gyfer ymgynghori â gweithwyr a chynnwys cynrychiolwyr iechyd a diogelwch

Ar lefel weithredol mae'n bwysig fod gan staff gymhwysedd i gyflawni eu cyfrifoldebau, ac mae gan y staff canlynol gymwysterau ffurfiol:

- Pennaeth Adnoddau Dynol – Tystysgrif IOSH mewn Rheoli'n Ddiogel
- Cyfarwyddwr Cynnal a Chadw – NEBOSH Cyffredinol a NEBOSH mewn Adeiladu
- Rheolwr Gwaith Cynnal a Chadw – Tystysgrif NEBOSH mewn Adeiladu
- Pennaeth Cydymffurfedd – Tystysgrif IOSH mewn Rheoli Diogelwch
- Cynrychiolwyr Iechyd & Diogelwch (15) – Tystysgrif Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith lefel 2, Marshall Tân Lefel 2 a hyfforddiant aseswyr DSE
- Achrediad Diogelwch Nwy ac EICR

Yn ogystal, mae'r sefydliad yn cydweithredu â dwy o gymdeithasau tai eraill ac yn cyflogi Rheolwr Iechyd a Diogelwch a Swyddog Iechyd a Diogelwch sy'n datblygu ac yn goruchwylio darpariaeth cynllun iechyd a diogelwch y Grŵp, monitro perfformiad a datblygu polisi, darparu cyfarwyddyd a chyngor i reolwyr a staff, ac yn mynychu cyfarfodydd iechyd & diogelwch yn chwarterol. Mae'r sefydliad hefyd yn cyflogi ymgynghorwyr ac archwilwyr allanol i gynnal archwiliadau rheolaidd o'r swyddogaethau gweithredol a gweinyddol i roi sicrwydd pellach.

Cyfranogiad tenantiaid i lywodraethu

Mae tenantiaid yn ymwneud yn uniongyrchol â llywodraethu'r Gymdeithas mewn sawl ffordd:

- Mae'r Grŵp Craffu Tenantiaid (GCT) yn adolygu ac yn craffu ar wasanaethau'r Gymdeithas ac yn adrodd ar eu canfyddiadau yn uniongyrchol i Fwrdd Newydd. Yna mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg Grŵp yn monitro gweithrediad eu hargymhellion. Mae'r Grŵp Craffu hefyd yn cael mynediad i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol i gefnogi eu hadolygiadau.
- Ar hyn o bryd mae gennym un aelod o'r Bwrdd sy'n denant.

Yn ystod y "cyfnod clo", fe wnaethon ni gynnal cynadleddau rhithiol gyda'r GCT bob chwarter. Rydym nawr yn adolygu'r ffordd rydym yn mynd ati i gynnwys tenantiaid fel rhan o'r thema Gwasanaethau Rhagorol yn y Cynllun Corfforaethol newydd. Byddwn yn datblygu strategaeth cynnwys tenantiaid newydd, ac fel rhan o hyn rydym yn gweithio gyda TPAS Cymru i gwblhau eu proses TESA (hunanasesiad o'n prosesau ymgysylltu â thenantiaid). Bydd TPAS Cymru yn darparu her, cyngor a chefnogaeth fel rhan o'r broses hon.

Cydymffurfedd

Ein prif reoleiddiwr yw Llywodraeth Cymru ac mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â'r naw safon reoleiddiol a nodir yn y Fframwaith Rheoleiddio a chynnal hunanasesiad cydymffurfedd yn flynyddol. Ers cyflwyno'r Fframwaith Rheoleiddio, rydym wedi cyrraedd y lefel uchaf o gydymffurfedd (safonol) ar gyfer Llywodraethu a Chyflenwi Gwasanaethau a Rheolaeth Ariannol. Cyhoeddwyd ein hadroddiad diwethaf ym mis Chwefror 2021.

Rydym wedi mabwysiadu Cod Llywodraethu Cartrefi Cymunedol Cymru. Mae ein hunanasesiad yn cadarnhau ein bod yn cydymffurfio'n llawn.

Rydym hefyd wedi cyflawni sawl achrediad arall er mwyn meincnodi ein perfformiad neu yrru gwelliant i gyrraedd safon genedlaethol. Mae ein hachrediadau yn cynnwys:

- Best Companies – Statws 2 seren
- Buddsoddwyr mewn Pobl – cadwyd y safon
- Y Safon Iechyd Corfforaethol – Aur
- Rydym wedi ein hachredu fel Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd
- Mae gennym achrediad Cyber Essentials Plus ar gyfer ein systemau diogelwch TG
- Gwobr Tai Pawb QED, a adnabyddir yn genedlaethol, am gydraddoldeb ac amrywiaeth
- RNIB Cymru Visibly Better
- Wedi mabwysiadu Safon Adrodd Cynaliadwyedd ar gyfer Tai Cymdeithasol yn gynnar

Datganiad o gyfrifoldebau aelodau'r Bwrdd mewn perthynas ag adroddiad y Bwrdd a'r datganiadau ariannol

Mae deddfwriaeth Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSL) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y ddeddfwriaeth honno, mae'r Bwrdd wedi dewis paratoi'r datganiadau ariannol yn unol ag Arfer Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredin yn y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig a'r gyfraith berthnasol). O dan ddeddfwriaeth LCC/RSL, rhaid i'r Bwrdd beidio â chymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon eu bod yn rhoi golwg wir a theg o sefyllfa'r Gymdeithas a'r Grŵp, ac o warged neu ddiffyg y Gymdeithas a'r Grŵp, am y flwyddyn honno. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol fod y Bwrdd:

- yn dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna'n eu gweithredu'n gyson.
- yn llunio barn a brasgyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarbodus.
- yn nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys y DU, yn amodol ar unrhyw ymadawiadau perthnasol a ddatgelwyd ac a eglurir yn y datganiadau ariannol hyn; ac
- yn paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Grŵp a'r Gymdeithas yn parhau mewn busnes.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol sy'n gallu dangos ac egluro trafodion y Gymdeithas a datgelu sefyllfa ariannol y Gymdeithas gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, i'w galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â gofynion Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, Deddf Tai ac Adfywio 2008, Penderfyniad Cyffredinol (Cymru) 2015 ynghylch Gofynion Cyfrifyddu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, a'r Datganiad o Arfer a Argymhellir ar gyfer Darparwyr Tai Cymdeithasol Cofrestredig a gyhoeddwyd yn 2018.

Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r Gymdeithas ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gynnal ac am gywirdeb y wybodaeth gorfforaethol ac ariannol sydd wedi'i chynnwys ar wefan y Gymdeithas. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n rheoli paratoad a lledaeniad datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Ar ran y Bwrdd, mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg Grŵp wedi adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth ariannol fewnol sy'n bodoli yn y Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022. Yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed yn ystod y flwyddyn, ni ddarganfuwyd unrhyw wendidau mewn rheolaethau ariannol mewnol a arweiniodd at golledion sylweddol, arian wrth gefn neu ansicrwydd y mae angen eu datgelu yn y datganiadau ariannol neu yn adroddiad yr archwilwyr ar y datganiadau ariannol.

Datgelu gwybodaeth i'r archwilydd

Mae aelodau'r Bwrdd wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol i'n gwneud yn ymwybodol, fel Bwrdd, o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod yr archwilydd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Archwilydd

Penodwyd Bevan Buckland LLP yn archwilydd Grŵp Tai Newydd ar 9 Medi 2021.

Arwyddwyd:
C Marshall, Cadeirydd
Dyddiad: 20 Gorffennaf 2022

Grŵp Newydd Cyfyngedig

Datganiad cyfunol cryno o incwm cynhwysfawr

Ar 31 Mawrth 2022

	2021/22 £'000	2020/21 £'000
Trosiant	18,947	19,458
Gwariant gweithredu	(13,300)	(13,806)
Gwarged gweithredu	5,647	5,652
Gwarged ar werthiant Eiddo, Peiriannau ac Offer	11	–
Incwm cyllid arall	3	11
Llog taladwy a chostau cyllido	(3,079)	(2,963)
Gwarged ar ailbrisio eiddo buddsoddi	528	(3)
Gwarged am y flwyddyn cyn trethiant	**3,110**	**2,697**
Trethiant	1	(1)
Gwarged am y flwyddyn ar ôl trethiant	**3,111**	**2,696**
Enillion/(colled) actiwaraidd mewn cysylltiad â chynlluniau pensiwn	1,770	(2,744)
Cyfanswm Incwm Cynhwysfawr am y flwyddyn	**4,881**	**(48)**

Grŵp Newydd Cyfyngedig

Datganiad cyfunol cryno o'r sefyllfa ariannol

Ar 31 Mawrth 2022

	2021/22 £'000	2020/21 £'000
Cyfanswm Asedau Sefydlog	240,645	229,176
Dyledwyr gohiriedig	3,343	3,397
Asedau presennol		
Stoc	795	43
Dyledwyr	1,223	1,116
Arian parod yn y banc ac mewn llaw	5,807	5,290
	7,825	6,449
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	(11,198)	(9,263)
Rhwymedigaethau presennol net	(3,373)	(2,814)
Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau presennol	**240,615**	**229,759**
Credydwyr: symiau sy'n daladwy ar ôl mwy nag un flwyddyn	(210,918)	(204,943)
Asedau net	**29,697**	**24,816**
Cyfalaf a chronfeydd		
Cronfa refeniw	**29,697**	**24,816**

Mae'r Archwilwyr Allanol, Bevan & Buckland, yn fodlon fod y cyfrifon cryno hyn yn gyson â'r cyfrifon llawn. Mae set lawn o ddatganiadau ariannol archwiliedig ar gael ar gais.

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol

I Aelodau Cymdeithas Tai Newydd (1974) Cyf. ar Lywodraethu Corfforaethol

Adroddiad Yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau Cymdeithas Tai Newydd (1974) Cyf. ar Lywodraethu Corfforaethol

Yn ogystal â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, rydym wedi adolygu datganiad y Bwrdd o gydymffurfedd Cymdeithas Tai Newydd (1974) Cyf. ("y Gymdeithas") â Chylchlythyr 02/10 Llywodraeth Cymru, Rheolaeth Ariannol Fewnol ac Adroddiadau Ariannol ("y Cylchlythyr").

Amcan ein hadolygiad yw ein galluogi i ddod i gasgliad ynghylch a yw'r Bwrdd wedi darparu'r datgeliadau sy'n ofynnol gan y Cylchlythyr ac a yw'r datganiad yn gyson â'r wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni o'n gwaith archwilio ar y datganiadau ariannol.

Nid yw'n ofynnol i ni lunio barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol y Grŵp na'i reolaeth ariannol fewnol.

Barn

Mewn perthynas â datganiad y Bwrdd ar sicrwydd rheolaethau mewnol ar dudalen 24, yn ein barn ni mae'r Bwrdd Rheoli wedi darparu'r datgeliadau sy'n ofynnol gan y Cylchlythyr ac mae'r datganiad yn gyson â'r wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni o'n gwaith archwilio ar y datganiadau ariannol.

Bevan Buckland .

Bevan Buckland LLP
Cyfrifyddion Siartredig ac Archwilwyr Statudol
Llawr Daear, Cardigan House
Castle Court, Parc Anturiaeth Abertawe
Abertawe SA7 9LA

Dyddiad: 20 Gorffennaf 2022

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau Cymdeithas Tai Newydd (1974) Cyf.

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Cymdeithas Tai Newydd (1974) Cyf. (y 'Gymdeithas') ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022 sy'n cynnwys y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Llifoedd Arian Parod, a nodiadau cysylltiedig. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig), gan gynnwys FRS 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon".

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa materion y Gymdeithas ar 31 Mawrth 2022 ac o'i gwarged am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac
- wedi'u paratoi yn unol â gofynion Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, Deddf Tai ac Adfywio 2008, a'r gofynion cyfrifo ar gyfer Penderfyniad Cyffredinol (Cymru) 2015 ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

Sail y farn

Gwnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISAs (DU)) a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach dan gyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio adran datganiadau ariannol ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar y Gymdeithas yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y FRC ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sylfaen i'n barn ni.

Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion a ganlyn y mae'r ISAs (DU) yn ei gwneud yn ofynnol i ni adrodd i chi lle:

- nad yw defnydd y Bwrdd o sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol;
- nad yw'r Bwrdd wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a allai fwrw amheuaeth sylweddol ynghylch gallu'r Gymdeithas i barhau i fabwysiadu sail busnes gweithredol o gyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad yr awdurdodir y datganiadau ariannol i gael eu cyhoeddi.

Gwybodaeth arall

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad strategol ac adroddiad y Bwrdd, ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilydd arnynt. Mae'r bwrdd yn gyfrifol am y wybodaeth arall.

Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau y nodir yn benodol fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arnynt.

Mewn perthynas â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu fel arall yn ymddangos fel petai wedi'i cham-ddatgan yn sylweddol. Os ydym yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath, neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i ni benderfynu a oes camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall. Os ydym, yn seiliedig ar y gwaith yr ydym wedi'i gyflawni, yn dod i'r casgliad fod camddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt drwy eithriad

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol y mae Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyflwyno adroddiad i chi os, yn ein barn ni:

- nad yw'r Gymdeithas wedi cadw llyfrau cyfrifon priodol; neu
- os na chedwir system foddhaol o reolaeth dros drafodion; neu
- os nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r llyfrau cyfrifon; neu
- os nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

Cyfrifoldebau'r Bwrdd

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd a nodir ar dudalennau 24 i 29, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am y cyfryw reolaeth fewnol ag y penderfyna'r Bwrdd sy'n angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am asesu gallu'r Gymdeithas i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes gweithredol a chan ddefnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Bwrdd naill ai'n bwriadu diddymu'r Gymdeithas neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddi ddewis realistig arall ond gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd wrth archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, ac i gyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn ni. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os, yn unigol neu yn y cyfansymiol, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a gymerir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

I ba raddau y credir y gall yr archwiliad ddatgelu afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll

Rydym yn nodi ac asesu risgiau camddatganiad sylweddol o'r Datganiadau Ariannol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, ac yna, yn cynllunio a chynnal gweithdrefnau archwilio sy'n ymatebol i'r risgiau hynny, gan gynnwys cael gafael ar dystiolaeth archwilio sy'n ddigonol ac yn addas i ddarparu sail ar gyfer ein barn.

Fe wnaethom drafod ein hannibyniaeth archwilio gan gydymffurfio gyda Safonau Moesegol Diwygiedig 2019 gydag aelodau'r tîm ymgysylltu tra'n cynllunio'r archwiliad, a monitro ein hannibyniaeth yn barhaus drwy gydol y broses.

Nodi ac asesu risgiau posib sy'n gysylltiedig ag afreoleidd-dra

Wrth nodi ac asesu risgiau o gam-ddatgan sylweddol mewn cysylltiad ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll a methiant i gydymffurfio â rheolau a chyfreithiau, roedd ein gweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- ymholi gyda rheolwyr, gan gynnwys cael gafael ar ac adolygu dogfennaeth gefnogol, ynghylch polisïau a gweithdrefnau'r cwmni yn ymwneud â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â rheolau a chyfreithiau, ac a oeddynt yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll ac a ydynt yn ymwybodol o unrhyw dwyll go iawn, posibl neu honedig;
  - wedi sefydlu mesurau rheoli i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfedd â rheolau a chyfreithiau;
- trafod ymysg y tîm ymgysylltu sut a lle y gallai twyll ymddangos yn y Datganiadau Ariannol ac unrhyw ddangosyddion posib o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, fe wnaethom nodi potensial am dwyll yn y meysydd canlynol;
  - Caffael mewn cysylltiad â'r rhaglenni datblygu a chynnal a chadw, gan gynnwys unrhyw werthiannau i unigolion cysylltiedig islaw gwerth y farchnad;
  - Cydnabod gwariant datblygu a chynnal a chadw yn y cyfnod cywir;
  - Y sail resymegol i unrhyw lifoedd cyllid sylweddol yn ystod y cyfnod;
  - Y potensial o dwyll rhent yn codi o ganlyniad i gydgynllwynio rhwng y timau ased a thai.

Nodi ac asesu risgiau posib sy'n gysylltiedig ag afreoleidd-dra parhad

- cael dealltwriaeth o'r fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol y mae'r cwmni yn gweithredu ynddynt, gan ffocysu ar y cyfreithiau a'r rheolau sydd wedi cael effaith uniongyrchol ar y Datganiadau Ariannol neu sydd wedi cael effaith sylfaenol ar weithrediadau'r gymdeithas. Ymysg y cyfreithiau a'r rheolau allweddol y gwnaethom eu hystyried yn y cyd-destun hwn oedd Deddf Cwmnïau'r DU a deddfwriaeth trethiant perthnasol.

Ymatebion archwiliad i'r risgiau a nodwyd

Yn ogystal â'r uchod, roedd ein gweithdrefnau i ymateb i'r risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau datganiadau ariannol a chynnal profion ar ddogfennaeth cefnogi er mwyn asesu cydymffurfedd â'r cyfreithiau a'r rheolau perthnasol;
- ymholi gyda'r rheolwyr am ymgyfreitha a hawliadau go iawn a phosib; cynnal gweithdrefnau dadansoddiadol i nodi unrhyw berthnasau anarferol neu annisgwyliedig a allai ddynodi risgiau o gam-ddatgan sylweddol o ganlyniad i dwyll;
- darllen cofnodion cyfarfodydd gyda'r rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethu ac adolygu cyfathrebu gyda'r CThEM; a
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy reolwyr yn trechu rheolaethau, profi addasrwydd cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill;
- asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifo yn dangos tuedd posib; a
- gwerthuso sail resymegol busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i lif busnes arferol.

Fe wnaethom hefyd gyfathrebu'r cyfreithiau a'r rheolau perthnasol a nodwyd a'r risgiau posib o dwyll i bob aelod o'r tîm ymgysylltu, a pharhau'n wyliadwrus o unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfedd â chyfreithiau a rheolau drwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol wedi'i leoli ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol ar www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o'n Hadroddiad yr Archwilydd.

Defnyddio ein hadroddiad

Gwneir yr adroddiad hwn i aelodau'r gymdeithas yn unig, fel corff, yn unol â Rhan 7 o Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol 2014. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu hysbysu aelodau'r gymdeithas o'r materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilydd ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r gymdeithas ac aelodau'r gymdeithas fel corff ar gyfer ein gwaith archwilio, ar gyfer yr adroddiad hwn, nac ar gyfer y farn a luniwyd gennym.

Bevan Buckland.

Bevan Buckland LLP
Cyfrifyddion Siartredig ac Archwilwyr Statudol
Llawr Daear, Cardigan House
Castle Court, Parc Anturiaeth Abertawe
Abertawe SA7 9LA
Dyddiad: 20 Gorffennaf 2022

Cymdeithas Tai Newydd (1974) Cyfyngedig

Datganiad Incwm Cynhwysfawr

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

	Nodiadau	**2022 £'000**	2021 £'000
Trosiant	3	**19,066**	19,408
Gwariant Gweithredu	3	**(13,529)**	(13,954)
Gwarged Gweithredu	3	**5,537**	5,454
Diffyg ar Werthiad Peiriannau & Offer		**–**	–
Incwm Cyllid Arall	6	**3**	11
Llog Taladwy a Chostau Cyllido	7	**(3,028)**	(2,939)
Diffyg ar Ailbrisio Eiddo Buddsoddi	12	**528**	(3)
Gwarged am y flwyddyn	5	**3,040**	2,523
(Colled)/elw actiwaraidd mewn cysylltiad â'r cynllun pensiwn	21	**808**	(1,246)
Cyfanswm Incwm Cynhwysfawr am y Flwyddyn		**3,848**	1,277

Gweithrediadau parhaus

Ni chafodd unrhyw un o weithgareddau Newydd eu caffael na'u dirwyn i ben yn ystod y flwyddyn.

Cymdeithas Tai Newydd (1974) Cyfyngedig

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

	Nodiadau	**2022 £'000**	2021 £'000
Asedau Sefydlog			
Eiddo Tai	11	**230,009**	218,449
Eiddo Buddsoddi	12	**4,768**	5,100
Eiddo, Peiriannau ac Offer Arall	13	**2,788**	2,423
Buddsoddiadau - Benthyciadau Cymorth Prynu sy'n Dderbyniadwy	14	**3,540**	3,664
Cyfanswm Asedau Sefydlog		**241,105**	229,636
Dyledwyr Gohiriedig	15	**3,343**	3,397
Asedau Presennol			
Stoc	16	**753**	–
Dyledwyr	17	**955**	942
Arian Parod yn y Banc ac mewn Llaw		**5,063**	4,156
Cyfanswm Asedau Presennol		**6,771**	5,098
Credydwyr: Symiau sy'n Ddyledus o fewn Blwyddyn	18	**(10,374)**	(8,287)
Rhwymedigaethau Presennol Net		**(3,603)**	(3,189)
Cyfanswm Asedau Llai Rhwymedigaethau Presennol		**240,845**	229,844
Credydwyr: Symiau sy'n Daladwy ar ôl Mwy Nag Un Flwyddyn	19	**(210,591)**	(203,438)
Asedau Net		**30,254**	26,406
Cyfalaf a Chronfeydd			
Cyfalaf Cyfranddaliadau	20	**–**	–
Cronfa Refeniw		**30,254**	26,406
Cyfanswm Wrth Gefn		**30,354**	26,406

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan y Bwrdd ar 20 Gorffennaf 2022 a llofnodwyd ar ei ran gan:

R Thomas
Aelod Bwrdd

C Marshall
Cadeirydd

E Lendering
Ysgrifennydd

Cymdeithas Tai Newydd (1974) Cyfyngedig

Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

	Refeniw Wrth Gefn £'000	**2022 Cyfanswm £'000**	2021 Cyfanswm £'000
Ar 1 Ebrill 2021	26,406	26,406	25,129
Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	3,848	3,848	1,277
Ar 31 Mawrth 2022	30,254	30,254	26,406

Cymdeithas Tai Newydd (1974) Cyfyngedig

Datganiad Llifoedd Arian

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

	2022 £'000	2021 £'000
Arian Parod Net a Gynhyrchwyd o Weithgareddau Gweithredu	**7,445**	6,537
Llif Arian o Weithgareddau Buddsoddi		
Prynu Eiddo, Peiriannau ac Offer	**(13,874)**	(15,551)
Prynu Eiddo Buddsoddi	**–**	(2,591)
Buddsoddiad Cymorth Prynu	**(78)**	(429)
Enillion o werthiant Eiddo, Peiriannau ac Offer	**562**	1,211
Enillion o werthiant Eiddo Buddsoddi	**148**	260
Enillion o werthiant Buddsoddiad Cymorth Prynu	**–**	822
Grantiau a Dderbyniwyd	**8,310**	5,741
Llog a Dderbyniwyd	**3**	11
Llif Arian Net o Weithgareddau Buddsoddi	**(4,929)**	(10,526)
Llif Arian o Weithgareddau Cyllido		
Llog a Dalwyd	**(3,028)**	(2,939)
Benthyciadau Newydd	**4,000**	11,275
Ad-dalu Benthyciadau	**(2,405)**	(1,433)
Ad-dalu Cyfleusterau Credyd Cylchol	**–**	(3,500)
Diffyg Pensiwn	**(176)**	(172)
Llif Arian Net o Weithgareddau Cyllido	**1,609**	3,231
(Gostyngiad)/Codiad Net Arian Parod a Chyfateb i Arian Parod	**907**	(758)
Arian Parod a Chyfateb i Arian Parod ar ddechrau'r flwyddyn	**4,156**	4,913
Arian Parod a Chyfateb i Arian Parod ar ddiwedd y flwyddyn	**5,063**	4,155

Cymdeithas Tai Newydd (1974) Cyfyngedig

Datganiad Llifoedd Arian parhad

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

	2022 £'000	2021 £'000
Arian Parod Net a Gynhyrchwyd o Weithgareddau Gweithredu		
Gwarged am y flwyddyn	**3,848**	1,277
Addasiad am eitemau nad ydynt yn arian parod:-		
Llog derbyniadwy	**(3)**	(11)
Llog taladwy	**3,028**	2,939
(Codiad) yng ngwerth teg eiddo	**(528)**	3
Gwrthdroad o amhariad blaenorol ar eiddo buddsoddi	**–**	–
Gwarged ar werthiad eiddo (Cymorth Prynu)	**–**	–
Colled/(gwarged) ar werthiad eiddo (Tranche cyntaf Perchentyaeth Cost Isel a Rhentu i Brynu)	**(245)**	(745)
Ffioedd dibrisiad	**2,369**	2,808
Dilead ar gydrannau eiddo buddsoddi	**–**	–
Amorteiddiad grant	**(788)**	(677)
(Codiad) / gostyngiad mewn dyledwyr	**76**	(58)
(Codiad) / gostyngiad mewn credydwyr	**530**	(341)
Codiad mewn darpariaeth dyledion drwg	**(34)**	96
Colled actiwaraidd mewn cysylltiad â chynlluniau pensiwn	**(808)**	1,246
Arian Parod Net a Gynhyrchwyd o Weithgareddau Gweithred	**7,445**	6,537
Arian parod a phethau sy'n cyfateb i arian parod:-		
Arian parod yn y banc ac mewn llaw	**5,063**	4,156
Pethau sy'n cyfateb i arian parod wedi'u cynnwys mewn buddsoddiadau asedau presennol	**–**	–
Arian parod a phethau sy'n cyfateb i arian parod	**5,063**	4,156

Cymdeithas Tai Newydd (1974) Cyfyngedig

Llif Arian Rhydd

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

	2022 £'000	2021 £'000
Arian parod net a gynhyrchwyd o weithgareddau gweithredu	**7,445**	6,537
Llog a Dalwyd	**(3,028)**	(2,939)
Llog a Dderbyniwyd	**3**	11
Treth a Dalwyd	**–**	–
Addasiadau ar gyfer ail-fuddsoddi mewn eiddo sy'n bodoli'n barod		
Amnewid cydrannau	**(2,092)**	(1,896)
Grant amnewid cydrannau a dderbyniwyd	**292**	244
Arian parod rhydd a gynhyrchwyd cyn ad-dalu benthyciad	**2,620**	1,957
Benthyciadau a ad-dalwyd (heblaw am gredyd cylchol a gorddrafftiau)	**(2,405)**	(1,433)
Arian parod rhydd a (ddefnyddiwyd)/gynhyrchwyd ar ôl ad-daliadau benthyciadau	**215**	524

Nodiadau sy'n ymwneud a'r Datganiadau Ariannol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

Nodiadau sy'n ymwneud a'r Datganiadau Ariannol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

1. Polisïau Cyfrifo

Sail cyfrifo

Paratowyd y datganiadau ariannol o dan y confensiwn cost hanesyddol, wedi'i addasu i gynnwys eitemau penodol ar werth teg, yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102 (FRS 102) a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol ac maent yn cydymffurfio â'r Datganiad o Arfer a argymhellir ar gyfer darparwyr tai cymdeithasol cofrestredig 2018 (SORP) a'r Gofynion Cyfrifyddu ar gyfer Penderfyniad Cyffredinol Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2015. Mae'r Gymdeithas yn endid budd cyhoeddus, fel y'i diffinnir yn FRS 102 ac mae'n cymhwyso'r paragraffau perthnasol sydd wedi'u rhagddodi 'PBE' yn FRS 102.

Mae'r Gymdeithas hefyd yn mabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol. Mae'r polisïau cyfrifyddu yn y nodyn hwn wedi'u cymhwyso'n gyson.

Trosiant

Mae trosiant yn cynrychioli rhent a thaliadau gwasanaeth derbyniadwy (net o golledion rhent a thaliadau gwasanaeth o eiddo gwag) ynghyd â grantiau refeniw, amorteiddio grantiau'r llywodraeth ac incwm amrywiol arall. Cydnabyddir incwm rhent a thâl gwasanaeth yn unol â chytundebau tenantiaeth a phrydles.

Eiddo ar gyfer gwerthiant

Mae eiddo a ddatblygir ar gyfer ei werthu yn cael ei ddal ar yr isaf o gost neu'r pris gwerthu amcangyfrifedig, llai'r costau i'w cwblhau a'u gwerthu. Mae'r gost yn cynnwys defnyddiau, llafur uniongyrchol, a chyfran y gellir ei phriodoli o orbenion yn seiliedig ar lefelau arferol o weithgaredd.

Grant Tai Cymdeithasol a grantiau eraill y Llywodraeth

Cydnabyddir grantiau'r Llywodraeth gan ddefnyddio'r model cronni ac fe'u dosberthir naill ai fel grant sy'n ymwneud â refeniw neu grant sy'n ymwneud ag asedau. Cydnabyddir grantiau sy'n ymwneud â refeniw mewn incwm, ar sail systematig dros y cyfnod y cydnabyddir costau cysylltiedig y bwriedir i'r grant wneud iawn amdanynt. Pan fydd grant yn dderbyniadwy fel iawndal am dreuliau neu golledion a gafwyd eisoes, fe'i cydnabyddir fel refeniw yn y cyfnod y daw'n dderbyniadwy.

Cydnabyddir grantiau sy'n ymwneud ag asedau mewn incwm, ar sail systematig dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased. Cydnabyddir grantiau a dderbynnir ar gyfer eiddo tai mewn incwm, dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig y strwythur eiddo tai. Pan dderbynnir grant yn benodol ar gyfer cydrannau eiddo tai, cydnabyddir y grant mewn incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig y gydran.

Cydnabyddir grantiau o ffynonellau heb fod yn ymwneud â'r Llywodraeth ar unwaith fel refeniw gan ddefnyddio'r model perfformiad..

Grant Cyllid Tai

Telir Grant Cyllid Tai (HFG) mewn rhandaliadau dros gyfnod o 30 mlynedd gan Lywodraeth Cymru tuag at gostau cyfalaf a llog datblygu tai fforddiadwy. Bernir bod yr elfen grant cyfalaf o HFG a dderbyniwyd yn flaenorol, yn ad-daladwy wrth waredu ased tai cysylltiedig. Mae hyn yn cael ei drin fel Grant Cyfalaf wedi'i Ailgylchu, a'i gynnwys yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol fel credydwr.

Ailgylchu grantiau

Pan fo gofyniad i naill ai ad-dalu neu ailgylchu grant a dderbyniwyd ar gyfer ased sydd wedi'i waredu, mae darpariaeth wedi'i chynnwys yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol i gydnabod y rhwymedigaeth hon fel rhwymedigaeth. Pan dderbynnir cymeradwyaeth gan y corff cyllido i ddefnyddio'r grant ar gyfer datblygiad penodol, mae'r swm a gydnabuwyd o'r blaen fel darpariaeth ar gyfer ailgylchu'r grant yn cael ei ailddosbarthu fel credydwr yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

Wrth waredu ased y derbyniwyd grant gan y Llywodraeth ar ei gyfer, os nad oes rhwymedigaeth i ad-dalu'r grant, mae unrhyw grant heb ei

amorteiddio sy'n weddill o fewn rhwymedigaethau yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol sy'n gysylltiedig â'r ased hwn yn cael ei ddad-gydnabod fel rhwymedigaeth a'i gydnabod ar unwaith fel refeniw yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

Gwariant Cyfalaf

Diffinnir gwariant cyfalaf fel gwariant lle mae'r buddion yn para mwy na 12 mis ac yn ymwneud â chaffael, creu neu wella ased sefydlog fel tir, eiddo tai, adeiladau newydd, cerbydau, dodrefn ac offer. Mae hyn yn wahanol i wariant refeniw, sy'n cynnwys eitemau o ddydd i ddydd i redeg gwasanaethau fel staffio a phrynu gwasanaethau.

Mae unrhyw gostau ofer yr eir iddynt sy'n ymwneud â datblygiadau nad ydynt yn symud ymlaen, yn cael eu dileu i'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr yn y flwyddyn y nodwyd eu bod yn ofer.

Eiddo Tai

Nodir eiddo tai ar gost, llai dibrisiant cronedig. Mae'r gost yn cynnwys:

- cost y tir a'r adeiladau
- ffioedd proffesiynol
- costau rheoli sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r cynllun datblygu
- mae'r llog yr eir iddo yn ystod y cyfnod datblygu yn cael ei gyfalafu a'i ychwanegu at gost eiddo tai gorffenedig yn seiliedig ar fuddsoddiad net y sefydliad a'i gostau benthyca ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn
- darpariaeth ar gyfer cost y gwaith a gwblhawyd ond na thalwyd amdano ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae cost eiddo tai yn cynnwys costau staff a gorbenion y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddod â'r eiddo tai i gyflwr addas ar gyfer eu defnydd arfaethedig. Mae gwariant ar eiddo tai presennol yn cael ei gyfalafu i'r graddau ei fod yn gwella budd economaidd yr ased. Gall gwelliant o'r fath ddigwydd os yw'r gwelliannau'n arwain at:

- gynnydd mewn incwm rhent,
- lleihad sylweddol mewn costau cynnal a chadw i'r dyfodol, neu
- estyniad sylweddol i oes yr eiddo

Dim ond gwelliannau prif gydrannau sy'n cwrdd â'r meini prawf hyn sy'n cael eu cyfalafu, ac mae'r rhain yn cael eu dibrisio dros eu rhychwant oes amcangyfrifedig, ar sail llinell syth.

Pan ddaw eiddo i berchnogaeth y Gymdeithas o dan gytundebau Adran 106, mae'r rhain yn aml yn cael eu prynu am bris is na'r gost. Pan fydd hyn yn wir, cynyddir y gost i'r gost lawn a dangosir y gwahaniaeth fel cost dybiedig mewn caffaeliadau eiddo, gyda'r balans cyfatebol yn cael ei ddangos fel grant tybiedig o fewn credydwyr.

Dangosir cyfnodau dibrisiant isod. Caiff yr holl gostau eraill eu dileu i'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr fel yr eir iddynt.

Cydnabyddir gwargedion neu ddiffygion wrth werthu eiddo ar y dyddiad y daw gwerthiant yn sicr. Y gwarged neu'r diffyg yw'r gwahaniaeth rhwng y pris gwerthu ac agreg y gost ddibrisiedig ac unrhyw gost gwaredu a ddyrannwyd megis ffioedd cyfreithiol a phrisio.

Dibrisiad

Tir Rhydd-ddaliadol

Nid oes dibrisiad ar dir rhydd-ddaliadol.

Eiddo Tai

Codir dibrisiant adeiladau fesul cydran er mwyn ysgrifennu'r gwerth llyfr net i'w gwerth gweddilliol ar sail llinell syth dros eu bywydau economaidd defnyddiol amcangyfrifedig i'r busnes.

Mae'r amcangyfrif o fywyd economaidd y prif gydrannau fel a ganlyn:

Strwythurau tai traddodiadol
Holl adeiladau a strwythur – wedi ysgrifennu i lawr i'r gwerth gweddilliol dros 150 o flynyddoedd

Prif gydrannau
Toeon – 45 mlynedd
Ffenestri a drysau – 35 mlynedd
Ceginau – 15 mlynedd
Ystafelloedd ymolchi – 25 mlynedd
Systemau gwresogi – 20 mlynedd
Paneli solar ffotofoltaig – 25 mlynedd
Systemau ynni deallus – 10 mlynedd
Lifftiau ac asedau gwasanaeth – 15% y flwyddyn

Lesddeiliad

Ailgodir tâl ar lesddeiliaid a thenantiaid am welliannau a wneir o dan delerau'r brydles, cydnabyddir ail-daliadau yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr ynghyd â'r incwm cyfatebol gan y lesddeiliad neu'r tenant.

Amhariad ar eiddo tai cymdeithasol

Nid yw eiddo a ddelir er budd cymdeithasol yn cael ei ddal yn unig ar gyfer y mewnlifiadau arian parod y maent yn eu cynhyrchu, ac fe'u cedwir ar gyfer eu potensial gwasanaeth.

Gwneir asesiad ar bob dyddiad adrodd i weld a oes dangosydd amhariad yn bodoli. Os oes dangosydd o'r fath yn bodoli, cynhelir asesiad amhariad a gwneir amcangyfrif o swm adferadwy'r ased. Pan fo swm cario'r ased yn fwy na'i swm adferadwy, cydnabyddir colled amhariad yn y gwarged neu'r diffyg yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr. Swm adenilladwy ased yw'r uchaf o'i werth a'i werth teg, llai costau i'w werthu. Pan ddelir asedau ar gyfer eu potensial cymdeithasol, mae eu gwerth mewn defnydd yn cael ei bennu gan werth presennol y potensial gwasanaeth sy'n weddill i'r ased, ynghyd â'r swm net a ddisgwylir ei gael amdano o'i waredu. Cymerir cost amnewid dibrisiedig yn fodel mesur addas.

Mae colled amhariad yn cael ei wrthdroi os yw'r rhesymau dros y golled amhariad wedi peidio â bod yn berthnasol, a'u cynnwys mewn gwarged neu ddiffyg yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr.

Eiddo buddsoddi

Mae eiddo buddsoddi yn ennill rhenti masnachol a rhenti marchnad ac yn cael eu mesur ar werth teg yn flynyddol gydag unrhyw newid yn cael ei gydnabod mewn gwarged neu ddiffyg yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr.

Eiddo, peiriannau ac offer arall

Defnyddir eiddo, peiriannau ac offer arall at ddibenion gweinyddol a gweithredol a'u nodi ar gost hanesyddol, llai dibrisiant cronedig. Darperir dibrisiant ar yr holl eiddo, peiriannau ac offer arall ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu cost, llai amcangyfrif gwerth gweddilliol, pob ased ar sail llinell syth dros ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig, fel a ganlyn:

Swyddfa rydd-ddaliad	2% y flwyddyn
Gwelliannau i adeiladau swyddfa	10% y flwyddyn
Dodrefn, gosodiadau a ffitiadau	10% y flwyddyn
Asedau gwasanaeth	15% y flwyddyn
Cerbydau	20% y flwyddyn

Benthyciadau Cymorth Prynu sy'n dderbyniadwy

Gwnaed benthyciadau ecwiti, o dan drefniadau perchentyaeth cost isel, i berchnogion tai nad oeddent fel arall yn gallu fforddio'u cartrefi yn llawn gan ddefnyddio morgeisi sydd ar gael yn fasnachol. Mae benthyciadau ecwiti wedi'u cynnwys yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar gost hanesyddol. Mae gan y Gymdeithas hawl i gyfran o'r gwerth marchnad sy'n cyfateb i'r budd ecwiti ar adeg pan fydd perchnogion tai naill ai'n gwaredu eu heiddo neu pan fyddant yn dewis ail-brynu peth, neu'r cyfan, o'r benthyciad ecwiti. Mae grantiau'n cael eu hailgylchu lle bernir eu bod yn ad-daladwy.

Offerynnau ariannol

Asedau ariannol a gariwyd ar gost wedi'i hamorteiddio

Mae asedau ariannol yn cynnwys ôl-ddyledion rhent a thâl gwasanaeth, dyledwyr eraill, ac arian parod a phethau cyfwerth ag arian parod. Pan fo effaith disgowntio yn sylweddol, mesurir asedau ariannol ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol. Ar y dyddiad adrodd, nid yw effaith disgowntio yn berthnasol i werth asedau ariannol y Gymdeithas, felly hepgorir disgowntio.

Mae ased ariannol yn cael ei ddad-gydnabod pan ddaw'r hawliau cytundebol i'r llifoedd arian i ben, neu pan drosglwyddir yr ased ariannol a'r holl risgiau a gwobr sylweddol.

Rhwymedigaethau ariannol a gariwyd ar gost wedi'i hamorteiddio

Mae rhwymedigaethau ariannol yn cynnwys credydwyr masnach a chredydwyr eraill, a benthyciadau a benthyciadau llog.

Mae benthyciadau sy'n cael eu dosbarthu fel offerynnau ariannol sylfaenol o dan FRS 102 yn cael eu mesur ar gost amorteiddiedig gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, gyda llog a thaliadau cysylltiedig yn cael eu cydnabod fel cost mewn costau cyllid yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr. Hepgorir disgowntio pan nad yw effaith disgowntio yn berthnasol.

Dim ond pan fydd y rhwymedigaeth gontractiol yn cael ei dileu, hynny yw, pan fydd y rhwymedigaeth yn cael ei chyflawni, ei chanslo neu pan ddaw i ben, y mae rhwymedigaeth ariannol yn cael ei dad-chydnabod.

Stoc
Nodir stoc ar yr isaf o gost a'r gwerth sylweddoladwy net.

Dyledion Drwg ac Amheus
Gwneir darpariaeth yn erbyn ôl-ddyledion rhent a thaliadau gwasanaeth ar gyfer tenantiaid presennol a chyn-denantiaid ac yn erbyn dyledion amrywiol i'r graddau eu bod yn cael eu hystyried gan reolwyr fel rhai na ellir eu hadennill.

Prydlesi Gweithredu
Codir costau mewn perthynas â phrydlesi gweithredu ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr yn y cyfnod y maent yn ymwneud ag ef. Mae premiymau prydlesi gweithredu yn cael eu cyfrif o fewn dyledwyr fel rhagdaliadau prydles ac yn cael eu hamorteiddio dros oes cyfnod y brydles.

Costau Llog ac Ariannu
Costau cyllido yw llog a chostau eraill yr eir iddynt mewn cysylltiad â benthyca arian, gan gynnwys ffioedd a delir i bartïon cyllido am eu hymrwymiadau i roi benthyg arian i'r Gymdeithas yn y dyfodol. Amorteiddir costau benthyca dros y cyfnod y mae'r Gymdeithas yn cael budd o offeryn ariannol, fel benthyciad, gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol.

Trethiant
Treth Ar Werth
Mae'r Gymdeithas yn codi Treth ar Werth (TAW) ar rywfaint o'i hincwm heblaw rhent ac mae'n gallu adennill rhan o'r TAW y mae'n ei thalu ar wariant. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys TAW ar wariant i'r graddau ei fod yn cael ei oddef gan y Gymdeithas ac nad yw'n adenilladwy o Gyllid a Thollau EM. Mae TAW adferadwy yn deillio o weithgareddau sydd wedi'u heithrio'n rhannol ac yn cael ei gredydu i'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr.

Treth gorfforaeth
Caiff y Gymdeithas ei thrin fel un elusennol at ddibenion trethiant. Mae gwargedion sy'n deillio o weithgareddau elusennol sylfaenol wedi'u heithrio rhag trethiant.

Rhwymedigaethau pensiynau – cynllun buddion diffiniedig
Mae'r Gymdeithas yn gallu nodi ei chyfran o asedau'r cynllun a rhwymedigaethau'r cynllun o 1 Ebrill 2018, ac felly mae wedi defnyddio cyfrifyddu buddion diffiniedig o'r dyddiad hwn ymlaen.

Mae'r Gymdeithas yn gwneud taliadau i gynlluniau buddion diffiniedig ar ran ei gweithwyr. Ariennir y cynlluniau gan gyfraniadau yn rhannol gan y gweithwyr ac yn rhannol gan y Gymdeithas ar raddfeydd a osodir gan actiwarïaid annibynnol. Buddsoddir asedau'r cynllun ar wahân i asedau'r Gymdeithas mewn cronfeydd aml-gyflogwr a weinyddir yn annibynnol. Mae costau'r buddion hyn a gwerth presennol y rhwymedigaeth yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys disgwyliad oes, codiadau cyflog a'r gyfradd ddisgownt ar fondiau corfforaethol. Mae'r tîm rheoli yn amcangyfrif y ffactorau hyn wrth benderfynu ar y rhwymedigaeth bensiwn net yn y fantolen. Mae'r rhagdybiaethau yn adlewyrchu profiad hanesyddol a thueddiadau cyfredol. Gallai amrywiad oddi wrth y rhagdybiaethau hyn gael effaith fawr ar y rhwymedigaethau.

Rhwymedigaethau pensiynau – cynllun cyfraniadau diffiniedig
Mae'r Gymdeithas yn gwneud taliadau i gynlluniau cyfraniadau diffiniedig ar ran ei gweithwyr. Ariennir y cynlluniau gan gyfraniadau sefydlog gan y gweithwyr a'r Gymdeithas. Buddsoddir asedau'r cynllun ar wahân i asedau'r Gymdeithas mewn cronfeydd a weinyddir yn annibynnol yn enwau'r gweithwyr dan sylw ac nid oes atebolrwydd gweddilliol i'r Gymdeithas y tu hwnt i dalu'r cyfraniadau hyn. Cydnabyddir y gwariant cysylltiedig ar unwaith yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr yn y flwyddyn yr enillir cyfraniadau.

Dosrannu Costau Gweinyddu Gweithwyr
Mae costau gweithwyr, gweinyddu a gweithredu uniongyrchol wedi'u dosrannu i adrannau perthnasol y Datganiad Incwm Cynhwysfawr ar sail y gwariant gwirioneddol. Dosberthir costau rheoli, cyllid a gweinyddu ymhellach ar sail cyflogau staff.

Rhiant-gwmni yn y pen draw

Mae Cymdeithas Tai Newydd (1974) Cyf. wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol 2014 ac mae'n Landlord Cymdeithasol Cofrestredig. Mae'r holl gyfranddaliadau yn cael eu dal mewn ymddiriedolaeth ar gyfer ac ar ran Grŵp Newydd Cyfyngedig sydd hefyd wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol 2014 ac sy'n Landlord Cymdeithasol Cofrestredig.

Mae Cymdeithas Tai Newydd (1974) Cyf. wedi manteisio ar yr eithriad a gynhwysir yn Adran 33 Safon Adrodd Ariannol 102 ac nid yw wedi datgelu trafodion a balansau gydag aelodau eraill Grŵp Newydd gan ei fod yn is-gwmni dan berchnogaeth lwyr ymgymeriad rhiant sy'n paratoi cyfrifon cyfunol sydd ar gael i'r cyhoedd o'r swyddfa gofrestredig a ddangosir ar dudalen 3.

2. Dyfarniadau rheoli sylweddol a ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif

Mae paratoi'r datganiadau ariannol yn unol ag egwyddorion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd wneud amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar y symiau a adroddwyd ar asedau a rhwymedigaethau a datgelu asedau a rhwymedigaethau wrth gefn ar ddyddiad y datganiadau ariannol a'r symiau refeniw yr adroddir amdanynt, a threuliau yn ystod y cyfnod adrodd. Gallai'r canlyniadau gwirioneddol yn y dyfodol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn. Yn hyn o beth, mae'r Bwrdd o'r farn fod y polisïau cyfrifyddu beirniadol lle mae dyfarniadau neu amcangyfrifon yn angenrheidiol yn cael eu crynhoi isod:

Dyfarniadau rheoli sylweddol

Mae'r canlynol yn ddyfarniadau rheoli wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu'r Gymdeithas sy'n cael yr effaith fwyaf sylweddol ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol.

Amhariad ar eiddo tai cymdeithasol

Rhaid i'r Gymdeithas wneud asesiadau i weld a oes dangosydd amhariad yn bodoli. Wrth wneud y dyfarniad hwn, mae rheolwyr wedi ystyried y meini prawf manwl a nodir yn y Datganiad o Arfer a Argymhellir ar gyfer Darparwyr Tai Cymdeithasol Cofrestredig (2018).

Dibrisiant a gwerthoedd gweddilliol

Mae'r Bwrdd wedi adolygu bywydau asedau a gwerthoedd gweddilliol cysylltiedig yr holl ddosbarthiadau asedau sefydlog, ac yn benodol, bywyd economaidd defnyddiol a gwerthoedd gweddilliol eiddo, ac wedi dod i'r casgliad fod bywyd ased a gwerth gweddilliol yn briodol.

Darpariaethau a chroniadau

Mae rheolwyr yn seilio dyfarniadau ar yr amgylchiadau sy'n ymwneud â phob digwyddiad penodol ac ar y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Fodd bynnag, o ystyried yr anawsterau cynhenid sydd ynglŷn â rhwymedigaethau amcangyfrif yn y meysydd hyn, ni ellir gwarantu na fydd costau ychwanegol y tu hwnt i'r symiau a gronnwyd.

3. Trosiant, Costau Gweithredu a Gwarged Gweithredu

	2022			2021		
	Trosiant £'000	**Gwarged Gweithredu £'000**	**Gwarged Gweithredu (Diffyg) £'000**	Trosiant £'000	Gwarged Gweithredu £'000	Gwarged Gweithredu (Diffyg) £'000
Gosodiadau tai cymdeithasol (nodyn 4)	**16,233**	**(11,609)**	**4,624**	15,456	(11,476)	3,980
Gweithgareddau tai cymdeithasol arall:-						
Grantiau refeniw	**545**	**(306)**	**239**	457	(173)	284
Rhaglen datgarboneiddio	**108**	**(108)**	**(0)**	–	–	–
Gwerthiannau tranche cyntaf Perchentyaeth Cost Isel	**–**	**–**	**–**	822	(769)	53
Cynyddu (neu leihau) cyfran perchentyaeth	**–**	**–**	**–**	33	(7)	26
Amorteiddio grant	**771**	**–**	**771**	677	–	677
	17,657	**(12,023)**	**5,634**	17,445	(12,425)	5,020
Gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â thai cymdeithasol:-						
Gosodiadau	**355**	**(444)**	**(88)**	229	(368)	(139)
Gwerthiant eiddo lesddaliadol	**–**	**–**	**–**	–	–	–
Adbryniannau pridiant cyfreithiol Perchentyaeth Cost Isel	**156**	**(142)**	**14**	197	(114)	83
Gwerthiant eiddo arall	**553**	**(323)**	**230**	1,241	(658)	583
Rhodd Cymorth o gwmnïau'r Grŵp	**151**	**–**	**151**	40	–	40
Arall	**194**	**(597)**	**(403)**	256	(389)	(133)
	1,409	**(1,506)**	**(97)**	1,963	(1,529)	434
	19,066	**(13,529)**	**5,537**	19,408	(13,954)	5,454

4. Manylion Incwm a Gwariant o Osodiadau Tai Cymdeithasol

	Anghenion cyffredinol £'000	Tai gwarchod ac i'r henoed £'000	Tai â chymorth £'000	Gosodiadau tai cymd. arall £'000	2022 Cyfanswm £'000	2021 Cyfanswm £'000
Incwm						
Rhent derbyniadwy	**13,822**	**809**	**286**	**50**	**14,967**	14,259
Incwm tâl gwasanaeth	**785**	**442**	**37**	**2**	**1,265**	1,197
Trosiant o osodiadau tai cymdeithasol	**14,607**	**1,251**	**323**	**52**	**16,233**	15,456
Gwariant						
Rheoli	**(2,647)**	**(188)**	**(55)**	**–**	**(2,889)**	(2,621)
Costau tâl gwasanaeth	**(964)**	**(542)**	**(46)**	**(2)**	**(1,554)**	(1,541)
Cynnal a chadw cyffredinol	**(2,470)**	**(175)**	**(52)**	**–**	**(2,697)**	(2,574)
Cynnal a chadw cylchol wedi'i gynllunio	**(973)**	**(69)**	**(20)**	**–**	**(1,061)**	(1,199)
Gwariant cynnal a chadw mawr wedi'i gynllunio	**(254)**	**(18)**	**(5)**	**–**	**(277)**	(181)
Colled rhent o ddyledion drwg	**(6)**	**(0)**	**(0)**	**–**	**(6)**	(155)
Costau ofer ar ddatblygiadau potensial	**(19)**	**–**	**–**	**–**	**(19)**	(66)
Dibrisiad ar eiddo tai	**(2,598)**	**–**	**–**	**–**	**(2,598)**	(2,485)
Trosglwyddiadau i Eiddo, Peiriannau ac Offer (nodyn 27)	**–**	**–**	**–**	**–**	**–**	–
Cydrannau a ddilëwyd yn ystod y flwyddyn	**–**	**–**	**–**	**–**	**–**	–
Costau eraill	**(507)**	**–**	**–**	**–**	**(507)**	(654)
Costau gweithredu	**(10,438)**	**(991)**	**(178)**	**(2)**	**(11,609)**	(11,476)
Gwarged gweithredu ar osodiadau tai cymdeithasol	**4,169**	**260**	**145**	**50**	**4,624**	3,980
Colled rhent oherwydd unedau gwag (nodyn memorandwm)	**157**	**27**	**–**	**–**	**184**	318

5. Gwarged am y flwyddyn

Mae gan y Gymdeithas statws elusennol at ddibenion trethiant. Mae gwargedion sy'n deillio o weithgareddau elusennol sylfaenol wedi'u heithrio rhag trethiant.

	2022 £'000	2021 £'000
Nodir y gwarged am y flwyddyn ar ôl codi costau / (credydu):-		
Dibrisiad ar eiddo tai	**2,598**	2,483
Dibrisiad ar eiddo, peiriannau ac offer	**171**	325
Gwasanaethau rheoli gan Grŵp Newydd Cyfyngedig	**3,069**	2,676
Refeniw a Grantiau Llywodraeth	**(1,423)**	(1,134)
Derbyniadau rhodd cymorth ar gyfer cwmnïau'r Grŵp	**(151)**	(40)
Diffyg ar werediad asedau sefydlog	**–**	–
Rhentu prydlesi gweithredu	**10**	10
Taliad cydnabyddiaeth archwilydd, gan gynnwys TAW anadferadwy o £2,000 (2021 £2,000) – Yn eu rhinwedd fel archwilwyr	**12**	12

6. Incwm Cyllid Eraill

	2022 £'000	2021 £'000
Llog banc derbyniadwy	**3**	11
	3	11

7. Llog Taladwy a Chostau Cyllido

	2022 £'000	2021 £'000
Benthyciadau a gorddrafftiau banc	**(3,045)**	(2,977)
Rhyddhau ffioedd trefnu benthyciad wedi'u gohirio	**(73)**	(69)
Dadweindio gostyngiadau ar ddarpariaethau	**(40)**	(17)
	(3,158)	(3,063)
Costau benthyca wedi'u cyfalafu	**130**	124
	(32,028)	(2,939)

Mae costau benthyca wedi cael eu cyfalafu ar sail cyfradd gyfalafu o 1.65% (2021 1.27%) sef cyfartaledd pwysol y cyfraddau sy'n berthnasol i fenthyciadau'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn.

8. Enillion aelodau'r bwrdd ac uwch swyddogion

Cydnabyddiaeth ariannol rheolwyr a phersonél allweddol

Cyfarwyddwyr sy'n aelodau staff gweithredol

	2022 £'000	2021 £'000
Y gydnabyddiaeth ariannol a dalwyd i uwch swyddogion gweithredol oedd:		
Cyflog Sylfaenol	**66**	37
Cyfraniadau yswiriant gwladol	**8**	4
Cyfraniadau pensiwn	**13**	10
Enillion cyfanredol	**87**	51

Yn ystod y flwyddyn, mae'r holl gyfarwyddwyr wedi dewis talu eu cyfraniadau pensiwn drwy aberthu cyflog, sy'n gostwng y cyflog gros ac yn codi'r cyfraniadau cyflogwr. Mae'r opsiwn hwn yn agored i bob aelod o staff.

Cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf, heb gynnwys cyfraniadau pensiwn	**66**	37

Roedd y nifer o bersonél rheoli allweddol a dderbyniodd gydnabyddiaeth ariannol (heb gynnwys cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol) yn yr amrediadau canlynol:

	2022 No.	2021 No.
£50,001 - £60,000	**–**	–
£60,001 - £70,000	**1**	–
£70,001 - £80,000	**–**	–
£80,001 - £90,000	**–**	–
£90,001 - £100,000	**–**	–

Mae cydnabyddiaeth ariannol uwch swyddogion yn cyfeirio at y Gymdeithas yn unig.

Talwyd cydnabyddiaeth ariannol gan Grŵp Newydd Cyf. i uwch swyddogion yn ystod y flwyddyn mewn cysylltiad â gwasanaethau a ddarparwyd i Newydd. Datgelir manylion y gydnabyddiaeth ariannol hon yng Nghyfrifon Statudol Grŵp Newydd Cyf.

Cyfarwyddwyr anweithredol

	2022	2021
Y gydnabyddiaeth ariannol a dalwyd i gyfarwyddwyr anweithredol oedd:		
Cyflog Sylfaenol	**33**	15
Cyfraniadau yswiriant gwladol	**–**	–
Cyfraniadau pensiwn	**–**	–
Enillion cyfanredol	**33**	15

Mae cydnabyddiaeth ariannol cyfarwyddwyr anweithredol yn cyfeirio at y Gymdeithas yn unig. Cyfanswm y treuliau a dalwyd i aelodau'r Bwrdd dros y flwyddyn oedd £50 (2021 - £Dim).

9. Gwybodaeth am weithwyr

	2022 Nifer	2021 Nifer
Ar gyfartaledd, y nifer o bobl wedi'u cyflogi bob wythnos dros y flwyddyn oedd:		
Staff swyddfa	**46**	45
Wardeniaid, gofalwyr, glanhäwyr a chrefftwyr	**5**	5
	51	50
Cyfwerth ag amser llawn	**49**	49

	2022 £'000	2021 £'000
Costau staff ar gyfer yr unigolion uchod:		
Cyflog Sylfaenol	**1,319**	1,371
Cyfraniadau yswiriant gwladol	**117**	114
Costau pensiwn eraill	**118**	115
	1,554	1,600

Roedd y nifer o staff cyfwerth ag amser llawn a dderbyniodd gydnabyddiaeth ariannol gan gynnwys cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol), yn fwy na £50,000 yn yr amrediadau canlynol:-

	2022 Nifer	2021 Nifer
£50,001 - £60,000	**–**	1
£60,001 - £70,000	**–**	1
£70,001 - £80,000	**–**	–
£80,001 - £90,000	**1**	–
£90,001 - £100,000	**–**	–
£100,000 +	**–**	–

10. Stoc tai

Nifer yr unedau o dai ac unedau eraill mewn rheolaeth ar 31 Mawrth 2022 oedd:

	2022 Nifer	2021 Nifer
Llety tai i'w osod:		
Anghenion cyffredinol	**2,692**	2,649
Llety gwarchod i'r henoed	**203**	197
Tai â chymorth	**60**	55
	2,955	2,901
Perchentyaeth cost isel:		
Rhanberchnogaeth (ar les)	**19**	19
Cymorth Prynu	**106**	106
	125	125
Unedau eraill:		
Rhent y farchnad	**67**	48
Rhenti canolradd	**10**	–
Lesddaliadau/rhydd-ddaliadau â thaliadau gwasanaeth	**123**	120
Swyddfa gymunedol	**1**	1
Garejys	**44**	44
	245	213
Cyfanswm Unedau	**3,325**	3,239

11. Asedau Sefydlog Diriaethol – Eiddo Tai

	Eiddo Tai		Eiddo Perchentyaeth	
	Delir i'w Osod Wedi'i Gwblhau £'000	Yn Cael Ei Adeiladu £'000	Cost Isel Wedi'u Gwblhau £'000	**Cyfanswm £'000**
Cost				
Ar Ddechrau'r Flwyddyn	231,209	19,148	233	**250,590**
Cynlluniau a Gwblhawyd yn y Flwyddyn	15,920	(15,920)	–	**–**
Gwarediadau	(1,161)	–	(2)	**(1,163)**
Ychwanegiadau	1,592	12,918	–	**14,510**
Ar Ddiwedd y Flwyddyn	247,560	16,146	231	**263,937**
Dibrisiad				
Ar Ddechrau'r Flwyddyn	(32,110)	–	(32)	**(32,142)**
Gwarediadau	812	–	–	**812**
Ffi ar gyfer y Flwyddyn	(2,598)	–	–	**(2,598)**
Ar Ddiwedd y Flwyddyn	(33,896)	–	(32)	**(33,928)**
Gwerth Net ar y Llyfrau				
Ar Ddiwedd y Flwyddy	**213,664**	**16,146**	**199**	**230,009**
Ar ddechrau'r flwyddyn	199,099	19,148	201	218,448

	2022 £'000	2021 £'000
Eiddo Tai yn Cynnwys:		
Rhydd-ddaliadau	**223,962**	212,401
Lesddaliadau Hir	**6,047**	6,047
	230,009	2187,4489

Cyfanswm llog wedi'i gyfalafu ar eiddo sy'n cael ei adeiladu oedd £124,000 (2020: £429,000).

	2022 £'000	2021 £'000
Ychwanegiadau i eiddo wedi'u cwblhau a ddelir i'w gosod		
Newid cydrannau	2,092	1,896
Prynu eiddo	11,786	11,290
Symiau dargadw	506	575
Rhaglen datgarboneiddio	126	–
Gwelliannau	–	–
	14,510	13,761
Gwelliannau a godir ar wariant	163	41
Rhaglen datgarboneiddio a godir ar wariant	107	–

12. Buddsoddi mewn eiddo

	2022 Cyfanswm £'000	2021 Cyfanswm £'000
Prisio		
Ar ddechrau'r flwyddyn	**5,100**	2,682
Ychwanegiadau	**–**	2,591
Gwarediadau	**(107)**	(170)
Ail-ddosbarthu i stoc	**(753)**	–
Ail-brisio eiddo a osodir am rhent y farchnad	**528**	(3)
Ar Ddiwedd y Flwyddyn	**4,768**	5,100

Prisiwyd yr eiddo buddsoddi gan briswyr allanol proffesiynol, rhwng Mawrth 2021 a Mawrth 2022, yn unol â Llawlyfr Arfarnu a Phrisio'r Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Lle bo hynny'n addas, mae'r prisiad wedi cael ei godi yn unol â Mynegai Prisiau Tai Cymru ar 31 Mawrth 2022. Mae Bwrdd y Cyfarwyddwyr wedi asesu gwerth teg y buddsoddiad ac yn eu barn nhw, maent yn credu bod y gost a ddangosir yn adlewyrchu gwerth teg ar 31 Mawrth 2022.

13. Eiddo, peiriannau ac offer – Arall

			Tir ac adeiladau				
	Rhydd-ddaliadol £'000	Lesddaliad Hir/Byr £'000	Gwelliannau Safle £'000	Asedau Gwasanaeth £'000	Cerbydau Modur £'000	Dodrefn ac Offer £'000	**Cyfanswm £'000**
Cost							
Ar ddechrau'r flwyddyn	592	1,802	387	1,821	–	178	**4,780**
Gwarediadau	–	–	427	106	–	3	**536**
Ffi ar gyfer y Flwyddyn	–	–	(336)	(3)	–	(61)	**(400)**
Ar Ddiwedd y Flwyddyn	**592**	**1,802**	**478**	**1,924**	**–**	**120**	**4,916**
Dibrisiad							
Ar ddechrau'r flwyddyn	(165)	(270)	(367)	(1,400)	–	(155)	**(2,357)**
Gwarediadau	–	–	336	3	–	61	**400**
Ffi ar gyfer y Flwyddyn	(12)	(36)	(5)	(114)	–	(4)	**(171)**
Ar Ddiwedd y Flwyddyn	**(177)**	**(306)**	**(36)**	**(1,511)**	**–**	**(98)**	**(2,128)**
Gwerth Net ar y Llyfrau							
Ar ddiwedd y flwyddyn	**415**	**1,496**	**442**	**413**	**–**	**23**	**2,788**
Ar ddechrau'r flwyddyn	**427**	**1,532**	**20**	**421**	**–**	**53**	**2,423**

14. Buddsoddiadau – Benthyciadau Cymorth Prynu

	Cyfanswm £'000
Cost	
Ar ddechrau'r flwyddyn	**3,664**
Ychwanegiadau	**78**
Gwarediadau	**(202)**
Ar Ddiwedd y Flwyddyn	**3,540**

15. Dyledwyr Gohiriedig

	2022 £'000	2021 £'000
Grant gohiriedig	**2,191**	2,248
Llog a dalwyd ymlaen llaw	**1,152**	1,149
	3,343	3,397

16. Stoc

	2022 £'000	2021 £'000
Eiddo wedi'u cwblhau a ddelir i'w hail-werthu / Stoc Cynnal a Chadw	**753**	–

17. Dyledwyr

	2022 £'000	2021 £'000
Ôl-ddyledion rhent a ffioedd gwasanaeth	**1,288**	1,283
Llai: darpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus	**(617)**	(651)
	671	632
Dyledwyr eraill	**182**	244
Symiau sy'n ddyledus o endidau Grŵp eraill	**–**	3
Rhagdaliadau ac incwm cronnus	**102**	63
	955	942

18. Credydwyr: Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

	2022 £'000	2021 £'000
Rhagdaliadau rhent a ffioedd gwasanaeth	**(312)**	(402)
Benthyciadau a gorddrafftiau banc	**(3,124)**	(2,595)
Grantiau tai cymdeithasol a grantiau eraill a dderbyniwyd ymlaen llaw	**(1,847)**	(1,946)
Grant i'w amorteiddio o fewn blwyddyn	**(788)**	(677)
Ailgylchu grant cyfalaf a chronfa enillion gwarediadau	**(994)**	(787)
Rhwymedigaeth bensiwn (gweler nodyn 21)	**(236)**	(176)
Credydwyr cyfalaf eraill	**(244)**	(52)
Swm sy'n ddyledus i endidau Grŵp eraill	**(739)**	(10)
Trethiant a nawdd cymdeithasol	**(30)**	(28)
Croniadau ac incwm gohiriedig	**(455)**	(449)
Credydwyr eraill	**(1,605)**	(1,165)
	(10,374)	(8,287)

Ailgylchu Grant Cyfalaf a Chronfa Enillion Gwarediadau

	2022 £'000	2021 £'000
Balans wedi'i ddwyn ymlaen	**(787)**	(664)
Ychwanegu: cronfeydd ariannol o werthiannau eiddo	**(207)**	(442)
Llai: cronfeydd a gymhwyswyd yn y flwyddyn	**–**	319
	(994)	(787)

19. Credydwyr: symiau sy'n daladwy ar ôl mwy nag un flwyddyn

	2022 £'000	2021 £'000
Benthyciadau Tai	**(80,339)**	(79,237)
Premiwm ar gyhoeddi Bondiau	**(4,703)**	(4,933)
Grantiau	**(124,814)**	(117,511)
Rhwymedigaeth bensiwn (gweler nodyn 21)	**(735)**	(1,721)
	(210,591)	(203,438)

Cyfanswm cronedig y grantiau cyfalaf a dderbyniwyd neu sy'n dderbyniadwy ar ddyddiad Datganiad y Sefyllfa Ariannol cyn amorteiddio yw £137,858,000 (2021: £129,609,000).

Cyfanswm y grantiau sy'n gysylltiedig â Pherchentyaeth Cost Isel ar ddyddiad Datganiad y Sefyllfa Ariannol cyn amorteiddio yw £2,350,000 (2021: £2,395,000)

	2022 £'000	2021 £'000
Incwm gohiriedig – Grantiau llywodraeth		
Ar 1 Ebrill 2021	**(118,188)**	(112,978)
Grantiau derbyniadwy	**(8,202)**	(5,887)
Amorteiddio i'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr	**788**	677
Ar 31 Mawrth 2022	**(125,602)**	(118,188)
Dyledus o fewn blwyddyn	**(788)**	(677)
Dyledus ar ôl blwyddyn	**(124,814)**	(117,511)

19. Credydwyr: symiau sy'n daladwy ar ôl mwy nag un flwyddyn parhad

Benthyciadau Tai

Mae benthyciadau tai yn cael eu sicrhau drwy daliadau sefydlog ar eiddo tai'r Gymdeithas. Mae'r cyfraddau llog yn sefydlog ar rhwng 1.08% a 11.41% neu'n amrywio yn ôl cyfradd y farchnad. Mae'r benthyciadau yn ad-daladwy rhwng y blynyddoedd 2025 i 2048.

Mae benthyciadau sy'n ad-daladwy mewn rhandaliadau yn ddyledus fel a ganlyn:

	2022 £'000	2021 £'000
Mewn pum mlynedd neu ragor	**(67,802)**	(63,241)
Rhwng dwy a phum mlynedd	**(10,629)**	(13,006)
Rhwng un a dwy flynedd	**(1,908)**	(3,026)
	(80,339)	(79,273)
Mewn blwyddyn neu lai	**(3,124)**	(2,595)
	(83,463)	(81,868)

Cyfleusterau benthyciad heb eu defnyddio

	2022 £'000	2021 £'000
Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd y cyfleusterau benthyciad heb eu defnyddio canlynol ar gael i'r Gymdeithas	**17,000**	20,000

20. Cyfalaf Cyfranddaliadau

	2022 £'000	2021 £'000
Cyfranddaliadau o £1 yr un wedi'u dosbarthu a'u talu'n llawn:		
Ar Ddechrau'r Flwyddyn	**10**	11
Wedi'u dosbarthu yn ystod y Flwyddyn	**2**	-
Wedi'u canslo yn ystod y Flwyddyn	**–**	(1)
Ar Ddiwedd y Flwyddyn	**12**	10

Mae'r cyfranddaliadau yn dwyn yr hawl i bleidleisio mewn cyfarfod cyffredinol. Nid oes hawl i ddifidend, nid oes angen darpariaeth ar gyfer adbrynu cyfranddaliadau ac nid oes darpariaeth ar gyfer dosbarthu ar ôl dirwyn i ben.

21. Cynlluniau Buddion Ymddeol

Cynllun cyfraniadau diffiniedig
Mae'r Gymdeithas yn gweithredu cynlluniau buddion ymddeol cyfraniadau diffiniedig ar gyfer cyflogeion cymwys. Cyfanswm y costau a godwyd ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 oedd £136,000 (2021: £127,000).

Cynllun buddion diffiniedig

Mae'r Gymdeithas yn cymryd rhan yn y cynllun, sef cynllun aml-gyflogwr sy'n darparu buddion i tua 500 o gyflogwyr nad ydynt yn gysylltiedig.

Mae'r cynllun yn ddarostyngedig i'r ddeddfwriaeth ariannu a amlinellir yn Neddf Pensiynau 2004 a ddaeth i rym ar 30 Rhagfyr 2005. Mae hyn, ynghyd â dogfennau a gyhoeddwyd gan y rheoleiddiwr pensiynau a'r Safonau Actiwaraidd Technegol a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adroddiadau Ariannol, yn nodi'r fframwaith ar gyfer ariannu cynlluniau pensiwn galwedigaethol o fudd diffiniedig yn y DU.

Cynhaliwyd prisiad tair blynedd diwethaf y cynllun at ddibenion ariannu ar 30 Medi 2020. Datgelodd y prisiad hwn ddiffyg o £1,560m. Ers 30 Medi 2020, mae adenillion buddsoddiadau wedi bod yn well na'r disgwyl ac mae taliadau cyfraniadau diffyg wedi gostwng y diffyg a gwella'r sefyllfa gyllido. Gan gymryd y bydd y profiad yn y dyfodol yn unol â rhagdybiaethau, a bod cyfraniadau diffyg yn cael eu talu yn unol â Chynllun Adferiad 2020, y disgwyl yw y bydd y diffyg wedi'i glirio erbyn 31 Mawrth 2028, diwedd y Cynllun Adferiad.

Dosberthir y cynllun fel 'trefniant y goroeswr olaf'. Felly, gallai'r cwmni fod yn atebol am rwymedigaethau cyflogwyr eraill sy'n cymryd rhan os nad yw'r cyflogwyr hynny'n gallu talu eu cyfran o'r diffyg yn y cynllun ar ôl tynnu'n ôl o'r cynllun. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i gyflogwyr sy'n cymryd rhan dalu am eu cyfran o ddiffyg y Cynllun ar sail prynu blwydd-dal pan gânt eu tynnu allan o'r cynllun.

Gwerthoedd presennol rhwymedigaeth buddion diffiniedig, gwerth teg asedau ac ased buddion diffiniedig (rhwymedigaeth)

	31 Mawrth 2022 £000s	31 Mawrth 2021 £000s
Gwerth teg asedau'r cynllun	**7,434**	6,645
Gwerth presennol rhwymedigaeth buddion diffiniedig	**8,405**	8,542
Gwarged (diffyg) yn y cynllun	**(971)**	(1,897)
Ased (rhwymedigaeth) buddion diffiniedig i'w chydnabod	**(971)**	(1,897)

21. Cynlluniau Buddion Ymddeol parhad

Cysoni balansau agor a chau'r rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig

	Cyfnod o 31 Mawrth 2021 i 31 Mawrth 2022 £000s
Rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod	8,542
Cost gwasanaeth cyfredol	62
Costau	6
Cost llog	188
Cyfraniadau aelodau	–
Colledion (enillion) actiwaraidd oherwydd profiad cynllun	590
Colledion (enillion) actiwaraidd oherwydd newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig	(121)
Colledion (enillion) actiwaraidd oherwydd newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol	(764)
Buddion a dalwyd a chostau	(98)
Rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar ddiwedd y cyfnod	8,405

Cysoni balansau agor a chau gwerth teg asedau'r cynllun

	Cyfnod o 31 Mawrth 2021 i 31 Mawrth 2022 £000s
Gwerth teg asedau'r cynllun ar ddechrau'r cynllun	6,645
Incwm llog	148
Profiad ar asedau'r cynllun (ac eithrio symiau a gynhwyswyd mewn incwm llog) - ennill (colled)	513
Cyfraniadau cyflogwr	226
Cyfraniadau aelodau	–
Buddion a dalwyd a chostau	(98)
Gwerth teg asedau'r cynllun ar ddiwedd y cynllun	7,434

Yr adenillion gwirioneddol ar asedau'r cynllun (gan gynnwys unrhyw newidiadau yn y gyfran o asedau) yn ystod y cyfnod o 31 Mawrth 2021 i 31 Mawrth 2022 oedd £661,000.

21. Cynlluniau Buddion Ymddeol parhad

Costau buddiannau diffiniedig a gydnabyddir yn y datganiad o incwm cynhwysfawr

	Cyfnod o 31 Mawrth2021 i 31 Mawrth 2022 £000s
Cost gwasanaeth cyfredol	62
Costau	6
Cost llog net	40
Costau buddion diffiniedig a gydnabyddir yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr (SoCI)	108

Costau buddion diffiniedig a gydnabyddir mewn incwm cynhwysfawr arall

	Cyfnod o 31 Mawrth 2021 i 31 Mawrth 2022 £000s
Profiad ar asedau cynllun (ac eithrio symiau a gynhwyswyd yn y gost llog net) - ennill (colled)	513
Profiad enillion a cholledion yn deillio o rwymedigaethau'r cynllun - ennill (colled)	(590)
Effeithiau newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig sy'n sail i werth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig - ennill (colled)	121
Effeithiau newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol sy'n sail i werth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig - ennill (colled)	764
Cyfanswm enillion a cholledion actiwaraidd (cyn cyfyngiad oherwydd nad oedd peth o'r gwarged yn medru cael ei gydnabod) - ennill (colled)	808
Cyfanswm a gydnabyddir mewn Incwm Cynhwysfawr Arall - ennill (colled)	808

21. Cynlluniau Buddion Ymddeol parhad

Asedau

	31 Mawrth 2022 £000s	31 Mawrth 2021 £000s
Ecwiti Byd-eang	1,427	1,059
Elw Llwyr	298	367
Cyfleoedd Buddsoddi mewn Dyledion a Atafaelwyd	266	192
Gwerth Cymharol Credyd	247	209
Premiymau Risg Amgen	245	250
Cronfa Cronfeydd Rhagfantoli	–	1
Dyled Marchnadoedd sy'n Datblygu	216	268
Rhannu Risgiau	245	242
Gwarannau sy'n Gysylltiedig ag Yswiriant	173	160
Eiddo	201	138
Seilwaith	530	443
Dyled Breifat	191	159
Credyd Caeth Oportiwnistaidd	250	169
Arenillion Uchel	64	199
Credyd Oportiwnistaidd	26	182
Arian Parod	25	–
Cronfa Bondiau Corfforaethol	496	393
Credyd Hylifol	–	79
Eiddo Prydles Hir	191	130
Incwm Sicredig	277	276
Buddsoddiad yn Seiliedig ar Rwymedigaeth	2,074	1,689
Sicrhau Arian Cyfred	(29)	–
Asedau Cyfredol Net	21	40
Cyfanswm yr asedau	7,434	6,645

Nid yw unrhyw un o werthoedd teg yr asedau a ddangosir uchod yn cynnwys unrhyw fuddsoddiadau uniongyrchol yn offerynnau ariannol y cyflogwr ei hun nac unrhyw eiddo a feddiennir gan y cyflogwr neu asedau eraill a ddefnyddir ganddo.

21. Cynlluniau Buddion Ymddeol parhad

Tybiaethau allweddol

	31 Mawrth 2022 £000s	31 Mawrth 2021 £000s
Cyfradd Ddisgownt	2.79%	2.21%
Chwyddiant (RPI)	3.49%	3.24%
Chwyddiant (CPI)	3.15%	2.87%
Twf Cyflog	4.15%	3.87%
Lwfans ar gyfer cyfnewid pensiwn am arian parod wrth ymddeol	75 % o'r lwfans uchaf	75% o'r lwfans uchaf

Mae'r rhagdybiaethau marwolaeth a fabwysiadwyd ar 31 Mawrth 2022 yn awgrymu'r disgwyliadau oes canlynol:

	Disgwyliad oes yn 65 oed (Blynyddoedd)
Gwryw yn ymddeol yn 2022	21.1
Benyw yn ymddeol yn 2022	23.7
Gwryw yn ymddeol yn 2042	22.4
Benyw yn ymddeol yn 2042	25.2

21. Cynlluniau Buddion Ymddeol parhad

Manylion Cyfraniadau Aelodau ar Gyfer y Cyfnod 31 Mawrth 2021 i 31 Mawrth 2022

Mis y Derbyniwyd	Costau £s	Cyfraniadau Diffyg £s	Cyfraniadau Cyflogwr Arferol* £s	Ychwanegiadau £s	Cyfanswm £s
Ebr-21	-	-	-	–	–
Mai-21	1,079	29,327	7,241	–	37,647
Meh-21	–	–	–	–	–
Gor-21	540	14,664	3,620	–	18,824
Aws-21	1,079	29,327	7,306	–	37,712
Med-21	540	14,664	3,649	–	18,853
Hyd-21	540	14,664	3,649	–	18,853
Tac-21	540	14,664	3,649	–	18,853
Rha-21	540	14,664	3,649	–	18,853
Ion-22	–	–	–	–	–
Chw-22	1,079	29,327	7,298	–	37,704
Maw-22	540	14,664	3,649	–	18,853
Cyfanswm	**6,477**	**175,965**	**43,710**	**–**	**226,152**

*Mae'r ffigyrau Cyfraniadau Cyflogwr Arferol yn cynnwys taliadau ychwanegol lle bo'n addas.

22. Offerynnau ariannol

Crynhoir gwerthoedd cario asedion a rhwymedigaethau ariannol y Gymdeithas fesul categori isod:

	2022 £'000	2021 £'000
Asedau ariannol a fesurwyd ar swm derbyniadwy nad yw wedi'i ddisgowntio:-		
Ôl-ddyledion rhent	**670**	632
Symiau sy'n ddyledus o endidau grŵp eraill	**–**	–
Dyledwyr eraill	**182**	244
Stoc	**753**	–
Arian parod yn y banc ac mewn llaw	**5,063**	4,156
	6,668	5,032
Rhwymedigaethau ariannol ar swm taladwy heb ei ddisgowntio:-		
Benthyciadau	**(83,463)**	(81,868)
Credydwyr cyfalaf	**(244)**	(52)
Symiau i/o endidau grŵp eraill	**(739)**	(10)
Trethiant a nawdd cymdeithasol	**(30)**	(28)
Credydwyr eraill	**(105)**	(102)
	(84,581)	(82,060)

Crynhoir incwm, costau, enillion a cholledion y Gymdeithas mewn perthynas ag offerynnau ariannol isod:

	2022 £'000	2021 £'000
Incwm a chostau llog		
Cyfanswm costau llog ar gyfer rhwymedigaethau ariannol	**(2,988)**	(2,922)

23. Dadansoddiad o'r newidiadau yn y ddyled net

	Ar 1 Ebrill 2021 £'000	Llifau arian £'000	Symudiadau gwerth teg £'000	Symudiadau cyfraddau cyfnewid arian £'000£'000	Symudiadau eraill nad sy'n ymwneud ag arian £'000	Ar 31 Mawrth 2022 £'000
Arian parod	4,156	907	–	–	–	5,063
Benthyciadau banc sy'n n ddyledus o fewn blwyddy	(2,595)	(456)	–	–	(73)	(3,124)
Benthyciadau banc sy'n d dyledus ar ôl blwyddyn	79,273)	(1,066)	–	–	-	(80,339)
Cyfanswm	(77,712)	(615)	–	–	(73)	(78,400)

24. Rhwymedigaethau digwyddiadol

Ar 31 Mawrth 2022, nid oedd unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol (2021: dim).

Mae'r Gymdeithas yn cael grant cyfalaf gan Lywodraeth Cymru, ac fe'i defnyddir i ariannu'r broses o gaffael a datblygu eiddo tai a'u cydrannau. O dan amgylchiadau penodol ar ôl gwaredu eiddo a ariennir gan grant, mae'n ofynnol i'r Gymdeithas ailgylchu'r grant hwn drwy gredydu'r Gronfa Grant Cyfalaf a Ailgylchwyd.

Efallai y bydd yn rhaid ad-dalu'r Grant Tai Cymdeithasol o dan yr amgylchiadau canlynol:
- Gwaredu eiddo (gan gynnwys gwarediadau ar delerau perchenogaeth â chymorth) ac eithrio i LCC arall;
- Newid defnydd eiddo i ddefnydd a fyddai'n gymwys am swm llai o grant;
- Newid defnydd eiddo i ddefnydd na fyddai'n gymwys i gael grant;
- Dymchwel eiddo lle nad yw'r safle yn rhan o ddatblygiad tai cymdeithasol newydd gan LCC;
- Gwarediad sy'n arwain at ad-dalu disgownt o dan Atodlen 2 i Ddeddf Cymdeithas Tai 1985.

Mae'r Gymdeithas yn aelod cyflogwr sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Pensiwn Tai Cymdeithasol (SHPS). Gallai dyled cyflogwr godi yn sgil tynnu'n ôl o'r Cynllun Pensiwn Tai Cymdeithasol. Yr amcangyfrif o ddyled cyflogwr i'r Gymdeithas wrth dynnu'n ôl o'r cynllun SHPS yn seiliedig ar sefyllfa ariannol y cynllun ar 30 Medi 2021 oedd £5,804,830. Gan fod digwyddiadau a allai grisialu'r ddyled yn annhebygol o godi yn y dyfodol rhagweladwy, ni fernir bod angen unrhyw ddarpariaeth benodol.

Rydym wedi cael hysbysiad gan Ymddiriedolwr y Cynllun ei fod wedi cynnal adolygiad o'r newidiadau a wnaed i fuddion y Cynllun dros y blynyddoedd a'r canlyniad yw bod ansicrwydd ynghylch rhai o'r newidiadau hyn. Cynghorwyd yr Ymddiriedolwr i ofyn am eglurhad gan y Llys am yr eitemau hyn. Mae'r broses yn parhau, ac mae hi'n annhebygol y caiff y mater ei ddatrys cyn diwedd 2024 ar y cynharaf. Cydnabyddir y gallai hyn o bosib effeithio ar werth rhwymedigaethau'r Cynllun, ond hyd y derbynnir cyfarwyddiadau gan y Llys, nid yw'n bosib cyfrifo effaith y mater hwn, yn enwedig ar sail cyflogwr unigol, gydag unrhyw gywirdeb ar hyn o bryd. Ni wnaed unrhyw addasiad yn y datganiadau ariannol hyn mewn cysylltiad â'r mater posib hwn.

25. Ymrwymiadau ariannol

	2022 £'000	2021 £'000
Gwariant Cyfalaf		
Dan Gontract llai Ardystiedig	**10,682**	25,810
Awdurdodedig ond ddim Dan Gontract	**–**	1,795

Ariennir y gwariant drwy gymysgedd o grant Llywodraeth Cymru a chyllid preifat.

Prydlesi Gweithredu

Mae cyfanswm isaf taliadau les yn y dyfodol ar gyfer y Gymdeithas o dan Brydlesau Gweithredu na ellir eu canslo fel a ganlyn:

	2022 £'000	2021 £'000
Symiau'n ddyledus:-		
O fewn blwyddyn	**10**	10
Rhwng dwy a phum mlynedd	**10**	20
Dros bum mlynedd	**–**	–
	20	30

26. Digwyddiadau ôl-fantolen

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau eraill yr oedd angen adrodd arnynt rhwng dyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a'r dyddiad y cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn.

27. Trafodion partïon cysylltiedig

Yn ystod y flwyddyn, roedd tenantiaid canlynol Cymdeithas Tai Newydd yn dal swyddi swyddogol gyda'r Gymdeithas:

		Rhent wythn. gros 2022 £	2021 £
Name	**Swydd**		
Shani Paytner	Aelod o'r Bwrdd	**120**	117

Nid oes unrhyw delerau arbennig yn berthnasol i gytundebau tenantiaeth tenant sy'n aelod o'r Bwrdd. Cyfanswm y rhent cyfanredol sy'n ddyledus gan denant sy'n aelod o'r Bwrdd ar 31 Mawrth 2022 oedd £Dim (2021: £Dim).